# Cynllun Datblygu Lleol Newydd Sir Ddinbych 2018 – 2033 Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

## Cynnwys

Cynnwys 2

1. Cyflwyniad 3

2. Amserlen 19

3. Cynllun Cynnwys Cymunedau 25

4. Manylion Cyswllt 35

Atodiad 1 – Profion Cadernid 36

Atodiad 2 – Amserlen Fanwl 37

Atodiad 3 – Risgiau i’r Amserlen 43

Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid 45

Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori 79

Atodiad 6 – Rhestr Termau 89

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

## 1. Cyflwyniad

1.1. Cefndir

1.1.1. Mae Adran 69 (A69) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn i’r Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) gynnal adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ac adrodd arno i Lywodraeth Cymru ar adegau penodol. I sicrhau bod asesiad rheolaidd a chynhwysfawr yn cael ei gynnal i weld p’un a yw’r cynlluniau’n parhau i fod yn gyfredol neu a oes angen newidiadau iddynt, dylai awdurdod ddechrau adolygiad A69 llawn o’i CDLl o leiaf bob 4 mlynedd o’i fabwysiadu gyntaf, ac yna o ddyddiad ei fabwysiadu ddiwethaf yn dilyn adolygiad dan A69 (Rheoliad 41).

1.1.2. Fel rhan o broses y CDLl, bu i Gyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) baratoi Adroddiad Adolygu sydd wedi nodi’r angen i gynnal adolygiad llawn o’i Gynllun Datblygu. Mae’r materion a ystyrir yn yr adroddiad yn ddigon pwysig i gefnogi'r angen i baratoi CDLl diwygiedig

1.1.3. Tynnodd yr Adroddiad Adolygu ar yr Adolygiadau Monitro Blynyddol (AMB) sydd wedi’u cyhoeddi, tystiolaeth a gasglwyd drwy’r arolygon diweddaraf a dangosyddion cyd-destunol perthnasol i gefnogi’r casgliad hwn.

1.1.4. CDLl Sir Ddinbych 2006 – 2021, sydd wedi’i fabwysiadu ar hyn o bryd, fydd y cynllun datblygu statudol o hyd nes y bydd yn cael ei ddisodli gan fersiwn ddiwygiedig y CDLl. Bu i’r llythyr dyddiedig 24 Medi 2020 gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gadarnhau bod mabwysiadu’r CDLl presennol cyn 4 Ionawr 2016 yn gwneud darpariaeth iddo barhau’n sail ar gyfer penderfynu ceisiadau cynllunio nes y bydd wedi’i ddisodli gan y CDLl newydd sy’n cael ei ddatblygu.

1.1.5. Bydd y CDLl newydd yn chware rhan gadarnhaol o ran nodi cyfleoedd am dwf a buddsoddiad, gan gynnwys dyrannu safleoedd priodol i'w datblygu mewn modd sy'n cadw cydbwysedd rhwng amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig. Bydd hefyd yn ystyried natur ieithyddol, gymdeithasol a diwylliannol cymunedau'r Sir.

1.2. Beth yw pwrpas y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn?

1.2.1. Fel un o ofynion y rheoliadau a nodir uchod, rhaid i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo Cytundeb Cyflawni (CC) ar gyfer paratoi'r CDLl newydd. Rhaid i hwnnw yn ei dro gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru (LlC).

1.2.2. Mae'r CC yn ddatganiad cyhoeddus o ymrwymiad y Cyngor i baratoi'r CDLl newydd, a hefyd yn ddatganiad o sut a phryd y gall budd-ddeiliaid, unigolion â diddordeb a chymunedau gyfrannu at ei baratoi. Mae'r CC yn cynrychioli cam statudol allweddol ym mharatoad y Cynllun, ac mae cadw at ei gynnwys y cytunwyd arno yn cynrychioli un o'r profion cadernid (Gweler adran 1.7) ar y cam archwilio cyhoeddus.

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

1.2.3. Cymeradwywyd Cytundeb Cyflawni gwreiddiol y CDLl newydd ym mis Mai 2018, ac roedd y gwaith yn mynd rhagddo’n dda yn unol â’r amserlen y cytunwyd arni. Mae dyfodiad y pandemig byd-eang a nifer o ffactorau eraill wedi achosi oedi sylweddol yn natblygiad y CDLl newydd. O ystyried y cyfnod amser sydd wedi mynd heibio, mae angen paratoi Cytundeb Cyflawni diwygiedig sy’n cynnwys amserlen a Chynllun Cynnwys Cymunedau newydd

Mae dwy brif ran i’r Cytundeb Cyflawni:

- Yr Amserlen: mae hon yn pennu’r terfynau amser ar gyfer llunio’r Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd sy’n cyd-fynd ag ef. Darperir dyddiadau pendant hyd at y Cam Archwilio gan y Cyhoedd, gyda dyddiadau dangosol ar gyfer y camau dilynol.
- Cynllun Cynnwys Cymunedau: mae hwn yn amlinellu'r dull o ymgysylltu â'r gymuned; sut, pryd a gyda phwy yr ydym yn bwriadu ymgysylltu a sut y bydd y Cyngor yn ymateb i’r sylwadau.

1.2.4. Mae’r CC yn gydran statudol bwysig i baratoi CDLl newydd. Yn hyn o beth, nodir y bydd unrhyw wyriadau oddi wrth y CC na chytunwyd arnynt gyda LlC yn brawf pwysig o ‘gadernid’ y Cynllun ar gam Archwilio’r CDLl. Mae’r CC, ei amserlen a’r dulliau y mae’r Cyngor yn eu defnyddio i baratoi’r Cynllun yn hanfodol i sicrhau bod y Cynllun yn cael ei baratoi’n briodol, yn brydlon ac yn gynhwysol.

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

1.3. Y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig

1.3.1. Mae gofyn i'r Cyngor adolygu'r Cytundeb Cyflawni yn rheolaidd a rhaid i unrhyw ddiwygiad gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad y Cyngor a'i gytuno gan Lywodraeth Cymru. Dylid hyrwyddo'r Cytundeb Cyflawni a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio yn unol â Rheoliad 10 y CDLl. Cydnabyddir mai dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid ystyried amserlen ddiwygiedig wrth baratoi'r cynllun. Fodd bynnag, yn ei llythyr dyddiedig 7 Gorffennaf 2020, bu i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol gydnabod y bydd angen Cytundeb Cyflawni diwygiedig lle bo effeithiau Covid-19 yn golygu na all awdurdod gadw at yr amserlen y cytunwyd arni'n flaenorol. Cymhlethwyd hyn ymhellach gan yr effeithiau sy'n gysylltiedig â chyhoeddi Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar Ffosffadau mewn Afonydd a ddynodwyd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA); oedi i'n gwaith maes mewn perthynas ag Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac oedi o ran cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol.

1.3.2. Wrth ddatblygu'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig, mae gofyn i'r Cyngor wneud y canlynol:

- Paratoi Cytundeb Cyflawni Diwygiedig drafft
- Ymgynghori ar y Cytundeb Cyflawni Drafft gyda Llywodraeth Cymru ac ar amserlen ddrafft gyda Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) (Arolygiaeth Gynllunio Cymru gynt), Cadw a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC);
- Ystyried cynnwys y CC drafft yn dilyn yr ymgynghoriad, a'i adolygu lle bo'n briodol; a'i
- Gyflwyno i Lywodraeth Cymru gytuno arno.
- Ar ôl i Lywodraeth Cymru gytuno arno, bydd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor

1.4. Effaith Covid-19

1.4.1. Mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar fywyd pawb ac ar y ffordd y mae'r Cyngor a'i weithwyr yn gweithredu a darparu gwasanaethau. Cafodd holl gyfarfodydd y Cyngor eu gohirio dros dro ac yna eu hail-gynnal dros y we, sydd wedi cael effaith ar wneud penderfyniadau. Roedd ymateb i'r pandemig yn flaenoriaeth i'r Cyngor, yn ddigon teg, a chafodd staff y tîm Polisi Cynllunio eu secondio i wahanol rolau yn y Cyngor i weithio'n uniongyrchol ar yr ymateb i'r pandemig. Mae hyn wedi achosi oedi anochel i ddatblygiad y CDLl newydd, gan arwain at yr angen am gytundeb Cyflawni diwygiedig.

1.4.2. Ar 7 Gorffennaf 2020, anfonodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol lythyr at Arweinwyr a Phrif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol. Yn y llythyr hwn, ail-ategodd y Gweinidog rôl cynlluniau datblygu hyblyg a chyfredol fel conglfaen y system gynllunio. Mae'r llythyr yn gofyn i awdurdodau cynllunio lleol fyfyrio ar effaith y pandemig ar eu hardaloedd ac ystyried y canlyniadau ar gyfer CauDLl sydd dan adolygiad neu'n cael eu rhoi ar waith. Dylai'r CauDLl hynny sydd wrthi'n cael eu hadolygu, nad ydynt eto wedi'u cyflwyno i'w harchwilio gan yr Arolygiaeth Gynllunio (PCAC erbyn hyn), gynnal asesiad o'r sail dystiolaeth, y strategaeth a'r polisïau o ran sensitifrwydd i ganlyniadau'r pandemig. Paratowyd yr asesiad hwn ar y cyd â'r CC Diwygiedig hwn, ac mae i'w weld yn Atodiad 4.

1.4.3. Un o brif gydrannau CC yw'r Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC), sy'n nodi pryd a sut y bydd cymunedau a budd-ddeiliaid eraill yn cael cymryd rhan ym mhroses baratoi'r cynllun. Cydnabyddir bod pandemig Covid-19 wedi dylanwadu ar sut rydym ni'n defnyddio adeiladau cyhoeddus ac yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau/ ymgysylltiadau. Rhoddir ystyriaeth ofalus i gyngor Llywodraethol y dyfodol yn hyn o beth, ynghyd â'r defnydd o ddulliau ymgynghori rhithiol, er mwyn gallu mynd ati i baratoi'r cynllun.

1.5. Ffactorau Eraill sy'n Cyfrannu i'r Angen am Ddiwygiad

1.5.1. Mae yna nifer sylweddol o ffactorau cyfrifol eraill wedi arwain ar yr angen i adolygu'r Cytundeb Cyflawni. Mae rhai wedi'u cysylltu â phandemig Covid-19, ond nid pob un

1.5.2. Lefelau Ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol. Ar 21 Ionawr 2021, gosododd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) safonau ffosffad newydd ar gyfer y naw Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Afonol yng Nghymru. Cynhaliodd CNC asesiad o gydymffurfiad sydd wedi dangos nad yw dros 60% o'r ardaloedd dyfrol perthnasol yn cyrraedd y safonau newydd, gan gynnwys yr Afon Dyfrdwy yn Sir Ddinbych. Y nod yw gwella ansawdd y dŵr drwy leihau'r llwyth ffosffadau, a hynny drwy ddiffinio targedau newydd sydd tua 50 i 80% yn is na'r safonau blaenorol.

1.5.3. Mae yna ganlyniadau arwyddocaol i'r methiannau hyn ar gyfer yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl). I'r Cyngor, mae'r prif effeithiau'n ymwneud â newidiadau i ddatblygiadau a defnydd tir yn ACA yr Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid. Mae "ACA Afon Dyfrdwy a Llyn Tegid" yn safle a ddynodwyd yn rhyngwladol ar gyfer cadwraeth natur, ac mae'n elwa ar amddiffyniad cyfreithiol o dan 'Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd)' (Rheoliadau Cynefinoedd 2017). Mae Rhan 6 Rheoliadau Cynefinoedd 2017, 'Asesiad o gynlluniau a phrosiectau', y rhoi'r ddyletswydd ar y Cyngor fel 'Awdurdod Cymwys' (h.y. y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau) i brofi a yw prosiect neu gynllun - ar ei ben ei hun neu ar y cyd - yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar safle Ewropeaidd o ystyried amcanion cadwraeth y safle hwnnw, cyn penderfynu rhoi caniatâd neu awdurdodiad. Mae hyn yn cynnwys penderfynu ar geisiadau cynllunio a chynhyrchu Cynlluniau Datblygu Lleol newydd. Mae'r Afon Dyfrdwy yn rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain yn rhan ddeheuol Sir Ddinbych, ond mae dyletswyddau'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd hefyd yn cynnwys y llednentydd sy'n llifo i'r Afon Dyfrdwy. Mae hyn wedi arwain at roi sawl cais

cynllunio o’r neilltu neu eu gwrthod ar sail methiant i gydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd 2017.

1.5.4. Er bod CNC wedi cyhoeddi cyngor i awdurdodau cynllunio lleol, nid yw CSDd wedi cael unrhyw wybodaeth am sut i gyfrifo llwythau ffosffad ychwanegol o ddatblygiadau newydd, na sut i roi unrhyw fesurau osgoi, lliniaru neu ganslo posib ar waith er mwyn gwrthbwyso llwythau ffosffad ychwanegol. Mae CNC a Llywodraeth Cymru wedi gadael i awdurdodau cynllunio lleol ddod o hyd i atebion sy’n mynd i’r afael â chanlyniadau targedau amgylcheddol newydd. Mae angen adnoddau a thystiolaeth ychwanegol i sicrhau bod y CDLl newydd yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd 2017. Mae cyhoeddi cyngor CNC i awdurdodau cynllunio wedi cael effaith uniongyrchol ar gynnydd y CDLl newydd a’i allu i baratoi yn unol â’r amserlen y cytunwyd arni’n flaenorol. Yn hyn o beth, mae effaith ffosffadau ar Afonydd a warchodir yn golygu bod rhaid i’r Cynllun drafft, ei ddogfennau ategol a’i sail dystiolaeth, gael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd 2017 ac yn cyd-fynd â’r Profion Cadernid.

1.5.5. Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr - Mae’r Asesiad hwn yn llunio rhan o’r sail dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer y CDLl newydd. Mae’r fethodoleg a ragnodwyd yn galw am gyfweliadau wyneb yn wyneb gydag aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr er mwyn asesu eu hanghenion o ran llety. Mewn llythyr ar 26 Mawrth 2020, bu i Lywodraeth Cymru ohirio cyfweliadau wyneb yn wyneb o ganlyniad i bandemig Covid-19, gan ddod â’r gwaith ar yr Asesiad hwn i ben. Daeth y gohiriad i ben ar 6 Mai 2021. Rhoddodd Llywodraeth Cymru estyniad o 12 mis ar y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno’r Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr. Cymeradwyodd y Cyngor yr Asesiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2021 ac rydym yn aros am gymeradwyaeth derfynol.

1.5.6. Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15: Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol – cyhoeddwyd y TAN 15 diwygiedig drafft ym mis Medi 2021, gyda'r bwriad o'i roi ar waith ar 1 Rhagfyr 2021. Mae'r canllawiau a'r mapiau yn hanfodol i strategaeth ofodol y CDLl ac i asesu safleoedd ymgeisiol, gan fod tir yn Sir Ddinbych yn agored i berygl llifogydd. Cafodd y gwaith ar asesu safleoedd ymgeisiol ei oedi wrth aros i'r nodyn cyngor newydd gael ei gyhoeddi, gan yr ystyrir perygl llifogydd yn gyfyngiad sylfaenol. Cyn dyddiad ei roi ar waith, cafodd y TAN 15 newydd ei ohirio i aros am waith pellach gan y Cynghorau ar Asesiadau o Ganlyniadau Llifogydd Strategol. Roedd angen cyflwyno'r asesiadau diwygiedig hyn i Lywodraeth Cymru erbyn mis Tachwedd 2022. Mae disgwyl i TAN 15 a mapiau llifogydd cyfredol gael eu cyhoeddi ym mis Mehefin 2023. Mae hyn wedi achosi oedi sylweddol i gadarnhau Strategaeth a Ffefrir y CDLl ac i asesu safleoedd ymgeisiol.

1.5.7. Safle Strategol Bodelwyddan – Roedd y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd yn cynnwys safle strategol ym Modelwyddan. Roedd y safle defnydd cymysg wedi cael ei ddyrannu yn y CDLl presennol ac wedi elwa ar ganiatâd cynllunio amlinellol adeg cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni a'r Strategaeth Ddrafft a Ffefrir wreiddiol. Mae'r caniatâd cynllunio amlinellol bellach wedi dod i ben ac mae'r datblygwr wedi gwaredu eu diddordeb yn y safle. Mae angen buddsoddiad sylweddol yn seilwaith y safle er mwyn symud ymlaen, ac mae trafodaethau ac ymdrechion hirfaith bellach wedi casglu bod y buddsoddiad sydd ei angen yn fwy nag unrhyw gyllid y gellir cael gafael arno. Mae'r ymdrechion helaeth hyn i sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y seilwaith hefyd wedi cyfrannu at oedi wrth adrodd yn ôl ar y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir, sydd yn ei dro wedi cael effaith ar yr amserlen

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

1.5.8. Etholiadau Llywodraeth Leol – Cynhaliwyd etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022. Mae etholiadau lleol yn cael cryn effaith ar broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Er mai ym mis Mawrth 2022 yr oedd y cyfnod cyn-etholiad yn dechrau'n swyddogol, dechreuodd yn llawer cynt mewn gwirionedd, ac roedd pryder na ddylid adrodd am eitemau a allai fod yn ddadleuol cyn yr etholiadau. Yn Sir Ddinbych, gwelwyd newid sylweddol yn yr aelodau etholedig, gyda thua 50% o'r rhai a etholwyd yn newydd i'r Cyngor. Newidiodd strwythur gwleidyddol y cyngor yn sylweddol, gydag Arweinydd newydd a Chabinet newydd sbon, gan gynnwys aelod newydd â chyfrifoldeb am ddatblygu'r CDLl. Roedd rhaid ceisio enwebiadau newydd ar gyfer y Grŵp Cynllunio Strategol, ac nid oedd posib cynnal cyfarfod cyntaf y grŵp tan fis Medi 2022. Collwyd cyfanswm o tua 9 mis yn sgil yr etholiadau.

1.6. Y Weithdrefn Adolygu a'r Profion Cadernid

1.6.1. Mae'r Adroddiad Adolygu'n crynhoi'r prif feysydd pwnc yr ystyrir nad yw'r Cynllun Datblygu Lleol presennol yn perfformio ynddynt, y rhannau sydd wedi dyddio yn sgil newidiadau cyd-destunol a'r rhannau o'r cynllun sydd felly angen eu hadolygu. Ar sail arwyddocâd y newidiadau sydd eu hangen, casglwyd bod angen i'r Cyngor lunio Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

1.6.2. Wrth baratoi neu adolygu Cynllun Datblygu Lleol, rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cael ei baratoi'n gywir a'i fod yn bodloni'r 3 Prawf Cadernid a amlinellir yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Rhifyn 3) 2020.

- A yw'r Cynllun yn addas? (h.y. a yw'n amlwg bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyson â Chynlluniau eraill?)
- A yw'r Cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn briodol ar gyfer yr ardal, o ystyried y dystiolaeth?)
- A fydd y Cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Trowch at Atodiad 1 i gael rhagor o fanylion am y Profion Cadernid a'u defnydd wrth Archwilio.

1.7. Canllawiau Cynllunio Atodol a Briffiau Datblygu Safleoedd

1.7.1. Mae gan Ganllawiau Cynllunio Atodol (CCA) ran bwysig i'w chwarae o ran ychwanegu at strategaeth, polisïau a dyraniadau'r Cynllun Datblygu Lleol drwy ddarparu cyngor technegol mwy manwl. Bydd cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig / ychwanegol yn cael eu cynnig i gefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd manylion y Canllawiau Cynllunio Atodol a allai fod yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael eu nodi ar y cam cyn i'r cyhoedd archwilio'r cynllun/ar y cam archwilio gan y cyhoedd, a gellir ychwanegu atynt ar ôl eu mabwysiadu. Efallai fod gan nifer o safleoedd allweddol Friffiau Datblygu Safleoedd wedi'u paratoi i lywio penderfyniadau cynllunio.

1.7.2. Bydd ymgysylltu â'r gymuned yn amrywio yn unol â chynnwys pob Nodyn Canllawiau Cynllunio Atodol a briff datblygu safle unigol. Bydd y cam ymgynghori, pan fydd posib gwneud sylwadau ar y canllawiau, yn cael ei hysbysebu'n eang. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar wefan y Cyngor, datganiadau i'r wasg ac anfon hysbysiadau at bob cyswllt ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd swyddogion ar gael i drafod materion dros y ffôn, dros e-bost neu drwy sgwrs fideo. Bydd gwybodaeth am sut i ymateb a'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw sylwadau yn cael eu nodi'n amlwg mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd.

1.7.3. Bydd yr holl sylwadau a wneir yn ystod yr ymgynghoriad ar y canllawiau atodol ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar ôl yr ymgynghoriad, ac yn cael eu priodoli i'r unigolyn, y grŵp neu'r sefydliad a wnaeth y sylw.

1.7.4. Adborth

- Bydd pob sylw a wnaed yn briodol yn cael eu cydnabod drwy e-bost neu lythyr.
- Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol a’r Pwyllgor Cynllunio yn cael gwybod am bob sylw a wnaed yn briodol ar ôl yr ymgynghoriad. Bydd crynodeb o’r sylwadau, ynghyd ag ymateb a awgrymwyd gan y Cyngor ac unrhyw newidiadau a argymhellir, ar gael i’r cyhoedd eu gweld.
- Bydd cydnabyddiaeth o unrhyw ddeisebau a ddaw i law yn cael ei anfon i gynigiwr y ddeiseb.

1.8. Asesiad Amgylcheddol Strategol, Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

1.8.1. Mae’r Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn destun asesiad o’i ddatblygiad cynaliadwy a’i effeithiau ar yr amgylchedd:

- Mae’r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn asesu goblygiadau  amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd strategaethau a pholisïau'r cynlluniau sy’n cael eu datblygu
- Mae’r Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn gofyn am asesiad trwyadl o effeithiau amgylcheddol, ac i raddau llai, effeithiau cymdeithasol y cynlluniau. Bwriad hyn yw sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol yn cael sylw wrth lunio’r cynlluniau..
- Mae ‘Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y’i diwygiwyd)’ (Rheoliadau Cynefinoedd 2017) yn darparu amddiffyniad cyfreithiol ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau sy’n bwysig yn Ewropeaidd. Yn y bôn, mae’r egwyddor ragofalus yn sicrhau nad yw’r cynigion sydd o fewn y Cynllun Datblygu Lleol yn achosi unrhyw effeithiau arwyddocaol ar y nodweddion cymwys, cyn iddo gael ei fabwysiadu gan yr awdurdod cynllunio lleol. Gan ei bod yn broses ailadroddol, bydd y Cynllun Datblygu Lleol sy’n datblygu yn destun Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar bob un o gamau’r broses o lunio’r cynllun.

1.8.2. Bydd y ddau asesiad cyntaf yn cael eu cynnwys yn yr ‘Arfarniad o Gynaliadwyedd’. Adroddir ar yr Asesiadau Rheoliadau Cynefinoedd ar wahân. Bydd yr asesiadau hyn yn cael eu cynnal ochr yn ochr â’r gwaith o lunio’r Cynllun Datblygu Lleol, a bydd yn rhan o’r gwaith hwnnw. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael ei ddogfennu mewn

- Adroddiad Cwmpasu cychwynnol i asesu’r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bydd yr adroddiad hwn yn disgrifio’r materion cynaliadwyedd presennol ac yn nodi set gyffredin o amcanion cynaliadwyedd y bydd y cynlluniau’n cael eu barnu yn eu herbyn;
- Adroddiad llawn ar yr asesiad o’r Cynllun Datblygu Lleol newydd wrth iddo ddatblygu. Bydd yr adroddiad hwn yn esbonio sut y mae’r dewisiadau a’r polisïau manwl a ystyrir ar gyfer y cynllun yn debygol o berfformio mewn perthynas â’r amcanion cynaliadwyedd a nodwyd yn yr adroddiad cwmpasu. Bydd yr adroddiad hwn hefyd yn esbonio sut y gellir osgoi neu wrthbwyso unrhyw effeithiau niweidiol y Cynllun Datblygu Lleol newydd, a sut y gellir gwneud y mwyaf o’r effeithiau manteisiol;
- Datganiad sy’n esbonio sut y mae ystyriaethau a’r asesiadau o gynaliadwyedd wedi cael sylw wrth lunio’r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

1.9. Y Potensial i Baratoi Cynlluniau ar y Cyd

1.9.1. Fel rhan o broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, mae angen ystyried manteision ac anfanteision paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd ag awdurdodau cynllunio lleol cyfagos. Y man cychwyn oedd edrych ar ba gamau unigol o baratoi'r Cynllun yr oedd ein cymdogion wedi'u cyrraedd ym mis Medi 2022.

| Awdurdod | Cam y Cynllun Datblygu Lleol |
|---|---|
| CS y Fflint | Archwilio |
| CBS Wrecsam | Archwilio |
| CBS Conwy | Ymgynghoriad cyn i'r cyhoedd archwilio'r cynllun |
| Cyngor Gwynedd ac Ynys Môn | Cyflwyno'r Adroddiad Adolygu |
| CS Powys | Cyflwyno'r Adroddiad Adolygu |
| APC Eryri | Mabwysiadu'r CDLl diwygiedig yn 2019 |

CBS Conwy yw'r unig awdurdod cynllunio lleol a fyddai'n cynnig y potensial i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd heb achosi oedi sylweddol i'r Cytundebau Cyflawni a wnaed rhwng yr awdurdodau lleol eraill a Llywodraeth Cymru. Mae'r ddau dîm cynllunio strategol wedi datblygu perthynas waith gynhwysfawr sy'n cynnwys llunio astudiaethau pynciol, casglu data ac asesiadau ar gyfer sail dystiolaeth eu Cynlluniau Datblygu Lleol priodol

1.9.2. Fodd bynnag, rhaid cofio bod y ddau awdurdod cynllunio lleol hefyd yn gyrff annibynnol, hunan-lywodraethol. Mae’r ddau Gyngor wedi mabwysiadu Cynlluniau a Rhaglenni Corfforaethol / Strategol i fynd i’r afael â chyfleoedd, heriau a meysydd gwelliant penodol i’r Sir. Gan fod rhaid paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yn unol â’r dogfennau hynny sy’n benodol i’r Sir, gweler y ‘Profion Cadernid’, nid yw’r Cynllun sy’n datblygu yn debygol o fod yn fyr, yn gryno, wedi’i integreiddio’n dda nac yn hawdd i’r defnyddiwr ei ddarllen, gyda’r angen i gyfeirio drwy gydol y ddogfen at ddwy set wahanol o strategaethau ac amcanion gwleidyddol y Cynghorau. Mae’r angen i baratoi Cynllun Datblygu Strategol sy’n cynnwys ardal gogledd Cymru yn lliniaru’r ystyriaeth o gynlluniau ar y cyd yn rhannol. Bydd pob awdurdod lleol yn paratoi CDLl cryno ar gyfer ei ardal ar ôl mabwysiadu’r CDS cyntaf, yn unol â Cymru’r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 (2021).

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

## 2. Amserlen

2.1. Camau Paratoi Allweddol

2.1.1. Rhennir yr amserlen ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn:

- Gamau pendant – hyd at a chan gynnwys y cam archwilio gan y cyhoedd statudol, y gellir cynnwys dyddiadau pendant ar eu cyfer
- Camau dangosol – ar ôl y cam archwilio gan y cyhoedd, y gellir cynnwys amcan ddyddiadau ar eu cyfer. Bydd y rhain yn cael eu hailystyried ar ôl y cam archwilio gan y cyhoedd

2.1.2. Bydd unrhyw lithriant oddi wrth amserlen y Cytundeb Cyflawni diwygiedig, neu fethiant i gyrraedd carreg filltir, yn sbarduno'r angen am Gytundeb Cyflawni newydd.

2.1.3. Roedd yr amserlen wreiddiol yn adlewyrchu cyflwyno'r Adroddiad Adolygu i Lywodraeth Cymru erbyn mis Rhagfyr 2017. Mae'r Adroddiad Adolygu terfynol yn pennu prif feysydd yn y Cynllun lle mae angen canolbwyntio'r gwaith ymgysylltu. Mae'r Arolygiaeth Gynllunio (PCAC erbyn hyn) wedi cynghori'n flaenorol y gall yr Awdurdod Lleol ddisgwyl derbyn Adroddiad terfynol yr Arolygydd o fewn tua blwyddyn ar ôl cyflwyno'r Cynllun. Mae'r amserlen ddiwygiedig hon yn adlewyrchu'r oedi a achoswyd gan Covid-19 a'r cyfyngiadau eraill a amlinellir yn adrannau 1.4 ac 1.5 uchod.

2.1.4. Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cafodd y camau canlynol eu cwblhau cyn y pandemig: Adroddiad Adolygu; F1 y Cytundeb Cyflawni; Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd; Cyfranogiad y Cyhoedd cyn i'r Cynllun gael ei Archwilio gan y Cyhoedd ac Ymgynghoriad Cyn i'r Cynllun gael ei Archwilio gan y Cyhoedd. Nodir y camau sy'n weddill isod. Mae amserlen fwy manwl i'w gweld yn Atodiad 2.

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

| Camau Pendant | Amserlen |
|---|---|
| Adroddiad Adolygu | Wedi’i gwblhau 2017 |
| Cytundeb Cyflawni F1 | Wedi’i gwblhau 2018 |
| Adroddiad cwmpasu’r AoG | Wedi’i gwblhau 2017 |
| Cyfranogiad y Cyhoedd Cyn i’r Cynllun gael ei Archwilio gan y Cyhoedd | Wedi’i gwblhau 2019 |
| Ymgynghoriad Cyn i’r Cynllun gael ei Archwilio gan y Cyhoedd | Wedi’i gwblhau 2019 |
| Cytundeb Cyflawni F2 | Medi 2022 – Ionawr 2023 |
| Ymgynghori ar y Cynllun i’w Archwilio gan y Cyhoedd ac ystyried sylwadau | Medi 2023 – Mai 2024 |

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

| Camau Dangosol | Amserlen |
|---|---|
| Cyflwyno'r CDLl i'w Archwilio | Mai 2024 |
| Archwilio’n Gyhoeddus | Mai 2024 – Mawrth 2025 |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | Mehefin 2025 |
| Mabwysiadu CDLl newydd | Medi 2025 |
| Monitro ac Adolygu | Parhaus ar ôl ei fabwysiadu |

2.2. Dulliau Ymgysylltu ar gyfer Pob Cam Paratoi Allweddol

2.2.1. Bydd y dulliau canlynol o hysbysu ac ymgynghori'n cael eu defnyddio ar gyfer pob un o'r camau pendant a dangosol a nodir uchod.

| | |
|---|---|
| Gwefan | bydd pob dogfen ar gael ar brif wefan y Cyngor. |
| Cyswllt Uniongyrchol | hysbysiad ysgrifenedig drwy e-bost/llythyr i'r ymgyngoreion ar y rhestr bostio (gan gynnwys y rhai hynny a restrir yn Atodiad 5 – grwpiau ymgynghori) |
| Y cyfryngau cymdeithasol | bydd hysbysiadau am y camau ymgynghori a'r dulliau ymgysylltu yn cael eu hyrwyddo drwy gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Bydd datganiadau i'r wasg hefyd yn cael eu cyhoeddi. |
| Cael gafael ar ddogfennau | bydd posib cael gafael ar y dogfennau ar-lein drwy'r terfynellau mynediad i'r we cyhoeddus yn y llyfrgelloedd a'r siopau un alwad ledled y Sir. Bydd copïau caled o ddogfennau'r CDLl hefyd ar gael yn y lleoliadau hyn. |

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

2.3. Adnoddau

2.3.1. Y Tîm Cynllunio Strategol a Thai o fewn Gwasanaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad Sir Ddinbych sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r adnoddau canlynol wedi'u hymrwymo i ddatblygu a chynhyrchu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd:

| | |
|---|---|
| Pennaeth y Gwasanaeth | 5% |
| Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai | 50% |
| 2 Uwch Swyddog Cynllunio | 75% |
| 1 Swyddog Cynllunio | 75% |
| Swyddog Cefnogi Cynllunio Strategol a Thai | 75% |
| 2 Uwch Swyddog Tai | 10% |

2.3.2. Mae'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai hefyd yn cydlynu ac yn gweinyddu grŵp llywio o Aelodau etholedig, sy'n cyfarfod bob 4 i 6 wythnos, gan gyfrannu i, a llywio, cynnwys a phroses y Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw ddogfennau polisi cynllunio eraill (e.e. Canllawiau Cynllunio Atodol, Briffiau Datblygu Safleoedd ac ati). Nid corff gwneud penderfyniadau yw'r grŵp llywio hwn, ond mae'n gwneud argymhellion i'r Pwyllgor Cynllunio, y Cabinet a'r Cyngor lle mae angen penderfyniadau neu gymeradwyaeth ffurfiol ar y broses.

2.4. Risgiau

2.4.1. Mae yna amryw o risgiau i sicrhau y cedwir at yr amserlen uchod, a nodir y rhain yn Atodiad 3. Gallai'r risgiau hyn fod o ffynonellau mewnol neu allanol a chynnwys risgiau nad oes gan yr Awdurdod Lleol fawr o ddylanwad drostynt o bosib. Mae mesurau lliniaru posib wedi'u nodi ar gyfer pob un o'r risgiau

2.5. Monitro ac Adolygu

2.5.1. Bydd y Cytundeb Cyflawni yn cael ei adolygu os:

- bydd proses baratoi'r Cynllun yn methu â chadw at yr amserlen y cytunwyd arni;
- bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau;
- bydd newidiadau sylweddol yn digwydd i'r adnoddau sydd ar gael i barhau i baratoi'r Cynllun

2.5.2. Cyn pen tri mis i ddiwedd y cyfnod ymgynghori ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, bydd amserlen wedi'i diweddaru sy'n dangos dyddiadau pendant ar gyfer camau dangosol proses y Cynllun yn cael ei chyflwyno i Lywodraeth Cymru gytuno arni.

2.5.3. Monitro - Bydd y Cyngor yn llunio Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) ym mis Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, a fydd yn asesu pa mor effeithiol y mae polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn perfformio, ac amlygu unrhyw angen am addasiadau. Bydd pob AMB yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

2.5.4. Adolygu - Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol, dylid cynnal adolygiad ymhen 4 blynedd, ond gallai gychwyn yn gynt os bydd yna newidiadau sylweddol i bolisïau cenedlaethol neu gyd-destun lleol, neu os bydd problemau sylweddol yn codi o'r AMB

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

## 3. Cynllun Cynnwys Cymunedau

3.1. Egwyddorion Cynnwys

3.1.1. Bydd cyfraniad gweithgar a bodlon pobl, cymunedau a sefydliadau'n hanfodol i helpu llunio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Sir Ddinbych. Mae mwy o ddealltwriaeth o'r materion sy'n wynebu cymunedau a sut yr hoffent ddatblygu yn y dyfodol yn allweddol i lunio cynllun newydd sy'n bodloni'r dyheadau hyn orau.

3.1.2. Mae egwyddorion canlynol cyfranogiad y gymuned a'r budd-ddeiliaid yn allweddol i allu cyflawni'r cynllun newydd yn llwyddiannus:

- Byddwn wastad yn ceisio defnyddio Cymraeg clir / *Plain* English ac yn osgoi defnyddio termau technegol pan fo hynny'n bosib;
- Byddwn wastad yn darparu adborth ar ganlyniadau pob un o gamau'r broses;
- Byddwn yn ceisio cynnwys pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn draddodiadol wedi cyfrannu at broses paratoi'r cynllun;
- Byddwn wastad yn ceisio egluro lle gellir gwneud penderfyniadau ar lefel leol, a lle mae rheoliadau statudol a pholisi cenedlaethol yn cael blaenoriaeth;
- Byddwn yn ceisio cael cytundeb pan fo hynny'n bosib, gan gydnabod bod angen i ni oll fod yn realistig pan nad yw pawb yn cyd-weld.

3.2. Yr Hyn Rydym yn ei Ddisgwyl gan Eraill

3.2.1. Mae'n bwysig bod unrhyw un sydd eisiau cymryd rhan, neu roi sylwadau, yn ystod y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn gwneud hynny o fewn yr amserlenni cyhoeddedig a nodwyd yn y Cytundeb Cyflawni. Mae hyn yn hollbwysig os hoffech chi i'ch safbwyntiau gael eu hystyried pan fydd y Cyngor yn datblygu strategaeth a pholisïau manwl y Cynllun Datblygu Lleol.

3.2.2. Mae'n bwysig hefyd eich bod yn rhoi gwybod i'r Tîm Cynllunio Strategol a Thai am unrhyw newid yn eich manylion cyswllt yn ystod y broses

3.3. Cyfranogiad Dwyieithog

3.3.1. Bydd cyfranogiad dwyieithog yn cael ei gynnal yn unol â Safonau Cymraeg y Cyngor:

- Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg a bydd y gohebwyr yn cael ymateb yn iaith y cyswllt gwreiddiol. Ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi wrth brosesu'ch sylwadau;
- Bydd yr holl lythyrau, ffurflenni sylwadau a chylchlythyrau safonol yn ddwyieithog;
- Bydd holl gyhoeddiadau polisi a chanllawiau'r Cyngor yn ddwyieithog;
- Bydd holl ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu'r Cyngor yn ddwyieithog
- Bydd pob cyfarfod, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, yn cael eu cynnal yn ddwyieithog pan ofynnir am hynny ymlaen llaw

3.4. Pwy fyddwn ni'n ei Gynnwys a Sut?

3.4.1. Byddwn yn cynnwys pobl mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd ar bob cam yn y broses, fel y nodwyd yn amserlen y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'n bosib y bydd gwahanol ddulliau ymgysylltu yn cael eu hystyried yn fwyaf priodol ar gyfer yr ystod eang o ymgyngoreion a fydd eisiau bod yn rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Bwriadwn wneud y broses mor hawdd i gymryd rhan ynddi ag sy'n bosib, a dylai pobl allu ymgysylltu gan ddefnyddio'r dull sydd fwyaf addas iddynt hwy.

3.4.2. Bydd pob cam lle gellir gwneud sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael ei hysbysebu'n eang. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth ar wefan y Cyngor, ar y cyfryngau cymdeithasol, datganiadau i'r wasg ac anfon hysbysiadau at bob cyswllt ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd gwybodaeth am sut i ymateb a'r dyddiad cau ar gyfer unrhyw sylwadau yn cael eu nodi'n amlwg mewn unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd.

3.4.3. Bydd yr holl sylwadau a wneir yn ystod proses y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar ôl yr ymgynghoriad, ac yn cael eu priodoli i'r unigolyn, y grŵp neu'r sefydliad a wnaeth y sylw.

3.5. Rôl Aelodau Etholedig (Cynghorwyr)

3.5.1. Cynghorwyr yw cynrychiolwyr etholedig pobl Sir Ddinbych, ac maent yn gwneud penderfyniadau ar ran eu hetholaeth. Aelodau etholedig fydd yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar ffurf a chynnwys y Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gamau allweddol ar hyd y broses.

3.5.2. Mae Grŵp Cynllunio Strategol (GCS) dan arweiniad Aelodau wedi cael ei sefydlu. Mae hwn yn grŵp awdurdod lleol mewnol o aelodau etholedig a swyddogion proffesiynol ar draws y Cyngor. Mae gan y Grŵp Cynllunio Strategol aelodaeth y cytunwyd arni gyda hawliau pleidleisio i sicrhau cydbwysedd, ond mae croeso i bob Aelod fynychu. Mae'r grŵp yn cyfarfod yn rheolaidd i adolygu a llunio polisïau a chynigion i'w hystyried gan y Cyngor. Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol yn gwneud argymhellion ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, ond bydd pob penderfyniad ffurfiol yn cael eu gwneud gan y Cyngor.

3.6. Y Cyhoedd

3.6.1. Mae'r 'Cyhoedd' yn golygu unrhyw aelod o'r cyhoedd o fewn Sir Ddinbych a thu hwnt. Gall unrhyw un gymryd rhan drwy roi sylwadau ar y camau allweddol fel y nodir yn Amserlen y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gellir gwneud sylwadau ar yr Adroddiad Adolygu drafft a'i ddogfennau ategol, y Cytundeb Cyflawni drafft, yr Ymgynghoriad Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun, yr ymgynghoriad ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd a'r Archwiliad

3.6.2. Gall y cyhoedd helpu'r Cyngor ddatblygu gwybodaeth leol fanwl am feysydd penodol o fewn y Sir. Gall unigolion a chanddynt wybodaeth a phrofiad manwl am rai pynciau sy'n berthnasol i'r Cynllun Datblygu Lleol weithredu fel ffynhonnell wybodaeth allweddol. Bydd y cyhoedd hefyd yn rhoi adborth gwerthfawr ar sut mae polisïau drafft, dyraniadau safleoedd a chynigion manwl eraill yn datblygu, a'r rhesymau am gefnogaeth neu wrthwynebiad y cyhoedd.

3.6.3. Ar gyfer aelodau'r cyhoedd nad ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r grwpiau a restrir isod, bydd y cyfleoedd i gymryd rhan a'r camau ymgynghori'n cael eu hysbysebu drwy wefan y Cyngor, y cyfryngau cymdeithasol a gwybodaeth ym mhob llyfrgell a siop un alwad

3.7. Cronfa Ddata'r Cynllun Datblygu Lleol

3.7.1. Wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol cyntaf, datblygwyd cronfa ddata helaeth a oedd yn cynnwys nifer o sefydliadau ac unigolion a ofynnodd am gael gwybodaeth ar amrywiol gamau yn y broses. Gall unrhyw un ofyn am gael eu hychwanegu at y gronfa ddata neu eu tynnu oddi arni unrhyw bryd, a bydd unrhyw un sy'n cyflwyno sylw yn ystod unrhyw un o'r camau ymgynghori yn cael eu hychwanegu at y gronfa ddata.

3.7.2. Y dull cyfathrebu sy'n cael ei ffafrio gan y rheiny sydd ar Gronfa Ddata'r Cynllun Datblygu Lleol yw e-bost. Bydd copïau papur ar gael ar gais.

3.8. Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned

3.8.1. Mae Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cynnig cyswllt hanfodol rhwng eu cymunedau a'r Cyngor. Gallant helpu codi ymwybyddiaeth o broses y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn ogystal â chyfleu safbwyntiau a barnau lleol i'r Cyngor. Bydd yr holl gyfathrebu, ymgysylltu ac ymgynghori'n cael ei gynnal yn unol â'r Siarter y cytunwyd arni rhwng y Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned a'r Cyngor (2020). Ymgynghorir â'r cynghorau tref a chymuned cyfagos ar bob un o gamau statudol proses y Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae rhestr o'r holl Gynghorau Tref a Chymuned i'w gweld yn Atodiad 5

3.9. Cyrff Ymgynghori Penodol ac Adrannau Llywodraeth y DU

3.9.1. Caiff yr ymgyngoreion hyn eu nodi yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Grwpiau B2 a B3 (2015)) ac maent yn cynnwys cyrff a chanddynt swyddogaethau penodol o fewn Sir Ddinbych, fel darparwyr cyfleustodau, adrannau'r llywodraeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru. Mae rhestr lawn i'w gweld yn Atodiad 5.

3.9.2. Bydd y cyrff sydd wedi'u cynnwys yn y grŵp hwn yn cynnig cyngor proffesiynol manwl ar gynigion y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, ac ar addasrwydd a chyflawniad safleoedd datblygu. Ymgynghorir â nhw, gan roi cyfle iddynt roi sylwadau ar gamau ffurfiol allweddol (statudol) y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gallai'r ymgyngoreion hyn hefyd ymddangos mewn Gwrandawiadau Archwilio o gael eu gwahodd gan yr Arolygydd, hyd yn oed os nad ydynt wedi mynegi gwrthwynebiad na nodi eu bod yn dymuno ymddangos.

3.10. Cyrff Ymgynghori Cyffredinol ac Ymgyngoreion Eraill

3.10.1. Mae Cyrff Ymgynghori Cyffredinol yn cynnwys cyrff gwirfoddol sy'n weithgar yn y Sir ac sy'n cynrychioli buddiannau amryw o wahanol grwpiau. Gall y rhain gynnwys cynrychiolwyr gwahanol grwpiau hil, crefyddol, ethnig ac anabledd yn ogystal â'r rhai sy'n cynrychioli grwpiau busnes, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Bydd llawer o'r rhain eisoes ar y gronfa ddata ond byddwn yn hapus i ychwanegu unrhyw grwpiau newydd unrhyw bryd.

3.10.2. Mae'r ymgyngoreion eraill yn sefydliadau nad ydynt yn dod o fewn unrhyw un o'r categorïau uchod ond bod ganddynt fudd cynrychioliadol yn y maes. Gall y rhain gynnwys cyrff megis yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chymdeithasau Dinesig.

3.10.3. Ymgynghorir â'r cyrff hyn, gan roi cyfle iddynt roi sylwadau ar gamau ffurfiol allweddol (statudol) y gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae'n debygol y bydd nifer fawr o'r grwpiau hyn hefyd yn aelodau o grwpiau eraill ac eisoes ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol

3.11. Datblygwyr, Asiantiaid a Thirfeddianwyr

3.11.1. Cafodd datblygwyr, asiantiaid a thirfeddianwyr wahoddiad i gyflwyno safleoedd ymgeisiol i'w hystyried yn ystod y cam ymgysylltu Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun. Cafodd manylion y wybodaeth sydd ei hangen i gyd-fynd â chyflwyniad unrhyw safle ymgeisiol eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac maent ar gael fel copi caled ar gais. Cafodd yr alwad am safleoedd ei hysbysebu yn y papurau newydd lleol ac ar wefan y Cyngor, a hysbyswyd yr holl gysylltiadau ar gronfa ddata'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r cyfle i gyflwyno safleoedd ymgeisiol pellach wedi cau erbyn hyn, ond gellir cyflwyno safleoedd ychwanegol ar y cam Ymgynghori ar y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.

3.11.2. Mae manylion yr holl safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd yn briodol wedi cael eu cofnodi ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol. Gwnaed hon yn gyhoeddus ochr yn ochr â'r ymgynghoriad Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol, ac mae ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/cynllun-datblygu-lleol-newydd/cynllun-datblygu-lleol-newydd.aspx. Ni fydd eiddo sy'n ffinio â safleoedd ymgeisiol a gyflwynwyd, neu ddyraniadau tir dilynol, yn cael eu hysbysu yn unigol.

3.12. Adborth

3.12.1. Bydd yr holl sylwadau a wnaed yn briodol ar unrhyw un o gamau ymgynghori ffurfiol y Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu cydnabod drwy e-bost neu lythyr. Bydd y Grŵp Cynllunio Strategol, y Cabinet neu'r Cyngor yn cael crynodeb o'r holl sylwadau a wnaed yn briodol yn dilyn y camau ymgynghori ffurfiol. Bydd crynodeb o'r sylwadau, ynghyd ag ymateb a awgrymwyd gan y Cyngor ac unrhyw newidiadau a argymhellir, ar gael i'r cyhoedd eu gweld. Bydd cydnabyddiaeth o unrhyw ddeisebau a ddaw i law yn cael ei anfon i gynigiwr y ddeiseb

3.13. Sut Fyddwn ni'n Delio â'ch Sylwadau?

3.13.1. Bydd y Cyngor yn ystyried pob sylw a wnaed yn briodol yn ysgrifenedig drwy lythyr neu e-bost, ac a dderbyniwyd erbyn dyddiad cau penodedig unrhyw gyfnod ymgynghori ffurfiol. Adroddir ar y sylwadau fel y nodir uchod

3.13.2. Er mwyn i sylwadau gael eu hystyried yn rhai 'wedi'u gwneud yn briodol' ar y cam Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun, dylent nodi'n glir pa fater sydd dan sylw. Sylwch nad yw'r sylwadau a wnaed ar y cam Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd yn ystod yr Archwiliad Cyhoeddus. Os nad ydych chi'n fodlon â'r ffordd y deliwyd â phryder a godwyd ar y cam Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun, dylech wrthwynebu ar y Cam Archwilio gan y Cyhoedd

3.13.3. Ar y Cam Archwilio gan y Cyhoedd, dylai'r holl sylwadau a wnaed yn briodol nodi pa fater sydd dan sylw, pa newid(iadau) a geisir, y sail ar gyfer gwneud y gwrthwynebiad ac, os yw'n bosib, y Prawf/Profion Cadernid dan sylw. Mae manylion y Profion Cadernid ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol i'w gweld yn Atodiad 1. Gall yr Arolygydd ystyried gwrthwynebiadau a wnaed yn briodol ar y Cam Archwilio gan y Cyhoedd yn yr Archwiliad Cyhoeddus

3.14. Sylwadau Hwyr

3.14.1. Bydd y Cyngor yn ystyried sylwadau a wnaed yn unol â'r cyfnod ymgynghori perthnasol, penodedig yn unig. Golyga hyn anfon sylwadau at y Cyngor ar bapur neu drwy e-bost, erbyn y dyddiad cau a nodir yng nghyhoeddusrwydd yr ymgynghoriad. Er mwyn eu cofnodi'n sylw 'a wnaed yn briodol' ar y Cynllun Datblygu Lleol, rhaid iddynt nodi'r materion y maent yn ymwneud â nhw ar y cam Ymgynghori Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun. Ar y Cam Archwilio gan y Cyhoedd, dylent nodi'r materion sydd dan sylw a'r newid a geisir, y sail ar gyfer eu gwneud a, lle bo'n bosib, y Prawf/Profion Cadernid dan sylw.

3.14.2. Gellir ystyried gwrthwynebiadau a wnaed yn briodol ar y Cam Archwilio gan y Cyhoedd yn yr Archwiliad. Ni fydd y sylwadau a wnaed ar y Cam Cyn i'r Cyhoedd Archwilio'r Cynllun yn cael eu hystyried gan yr Arolygydd

3.14.3. Os daw sylw i law ar ôl y dyddiad cau, a bod ymdrech amlwg a didwyll wedi'i wneud i'w gyflwyno mewn da bryd, gallai'r sylw hwnnw gael ei ystyried yn un 'a wnaed yn briodol' os yw'r Awdurdod yn fodlon gyda'r dystiolaeth wrthrychol briodol o bostio neu ddanfon a ddarperir

3.14.4. Gall y rheiny sydd â'r hawl statudol i ymddangos gerbron, a chael eu clywed gan Arolygydd yr archwiliad (h.y. gwrthwynebwyr, unigolion sy'n ceisio newid yn y cynllun – dan Adran 64(6) Deddf 2004) fwrw ymlaen â'u gwrthwynebiadau gan ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig os nad ydynt yn dymuno ymddangos yn yr Archwiliad. Mae gwrthwynebiadau a fwriwyd ymlaen fel hyn yn cario cymaint o bwysau gyda'r Arolygwyr â'r rhai a wnaed ar lafar mewn Archwiliad (Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol Rhifyn 3 paragraff 6.42).

# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig Rhagfyr 2022

## 4. Manylion Cyswllt

Tîm y Cynllun Datblygu Lleol

Cynllunio Strategol a Thai

Gwasanaethau Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chefn Gwlad

Cyngor Sir Ddinbych

Blwch Post 62

Rhuthun

Sir Ddinbych,

LL15 9AZ

E-bost: polisicynllunio@sirddinbych.gov.uk

Ffôn: 01824 706916

Gwefan: https://www.denbighshire.gov.uk/cy/rheoliadau-cynllunio-ac-adeiladu/cynllun-datblygu-lleol/cynllun-datblygu-lleol-newydd/cynllun-datblygu-lleol-newydd.aspx

Cymorth Cynllunio

Gwasanaeth gwirfoddol yw Cymorth Cynllunio sy'n gysylltiedig â'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol. Mae'n cynnig cyngor proffesiynol annibynnol ar faterion cynllunio tref yn rhad ac am ddim i grwpiau cymunedol ac unigolion sy'n methu fforddio cyflogi ymgynghorydd cynllunio. Dyma'r manylion cyswllt

Gallwch ffonio: 029 2062 5000

Anfon neges e-bost drwy'r wefan i https://planningaidwales.org.uk/cysylltwch-a-ni/?lang=cy

Neu anfon llythyr i: Cymorth Cynllunio Cymru, Llawr Cyntaf, 174 Heol yr Eglwys Newydd, Heath, Caerdydd CF14 3NB

# Atodiad 1 – Profion Cadernid

Cysyniad sylfaenol system y Cynllun Datblygu Lleol yw bod y cynllun yn gynnyrch proses drwyadl a chynhwysfawr o ymgysylltu â'r gymuned, lle mae'r awdurdod cynllunio wedi mireinio'r dewisiadau i gynhyrchu'r hyn y maent yn ei ystyried yn gynllun Cadarn. Felly'r rhagdybiaeth fydd bod y Cynllun Datblygu Lleol yn Gadarn oni ddangoswyd fel arall o ganlyniad i dystiolaeth a ystyriwyd yn yr Archwiliad.

O ganlyniad, bydd angen i'r sawl sy'n gwrthwynebu ddangos pam nad yw'r cynllun yn Gadarn. Bydd pawb sy'n gwneud sylwadau ar y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hannog i gysylltu eu sylwadau â'r Profion Cadernid.

Serch hynny, cyfrifoldeb yr Arolygydd penodedig ar y cam Archwilio yw ystyried Cadernid y Cynllun Datblygu Lleol cyfan. Er y bydd Arolygwyr yn parhau i ystyried gwrthwynebiadau unigol, bydd hynny ar sail sut y bydd y rhain yn mynd i'r afael â Chadernid cyffredinol y Cynllun Datblygu Lleol.

Bydd yr Archwiliad yn cael ei gynnal ar ffurf trafodaeth gyhoeddus lle bydd y materion i'w trafod yn cael eu nodi ymlaen llaw gan yr Arolygydd a bydd y cyfranogwyr yn cael eu gwahodd i gyfrannu. Bydd gwahanol fathau o weithdrefnau'n cael eu defnyddio, ond trafodaethau neu wrandawiadau o amgylch y bwrdd fydd y rhain yn bennaf. Gallai gwrandawiadau ffurfiol gael eu defnyddio os bydd yr Arolygydd yn ystyried bod hyn yn angenrheidiol ac yn briodol. Yr Arolygydd fydd yn penderfynu ar y weithdrefn briodol gan ragdybio y bydd yn anffurfiol.


Mae'r Profion Cadernid yn ymwneud â thri maes:

1. A yw'r Cynllun yn addas? (h.y. a yw'n amlwg bod y Cynllun Datblygu Lleol yn gyson â Chynlluniau eraill?)
2. A yw'r Cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r Cynllun Datblygu Lleol yn briodol ar gyfer yr ardal, o ystyried y dystiolaeth?)
3. A fydd y Cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

Mae rhagor o wybodaeth am y Profion Cadernid i'w gweld ar wefan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru

# Atodiad 2 – Amserlen Fanwl

Cam Allweddol 1 – Cytundeb Cyflawni (Rheoliadau 5 i 10) Cytundeb Cyflawni Diwygiedig



# Atodiad 2 – Amserlen Fanwl

Cam Allweddol 3 – Ymgynghoriad Cyn i’r Cyhoedd Archwilio’r Cynllun: (Rheoliadau 15, 16 ac 16A)

| | Ion 2022 | Chw 2022 | Maw 2022 | Ebr 2022 | Mai 2022 | Meh 2022 | Gor 2022 | Aws 2022 | Med 2022 | Hyd 2022 | Tac 2022 | Rha 2022 | Ion 2023 | Chw 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ystyried sylwadau a gafwyd ar y Strategaeth Ddrafft a Ffefrir, adroddiad sgrinio’r ARhC a’r AoG cychwynnol | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| Adrodd am yr ymgynghoriad a chadarnhau’r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl newydd | | | | | | | | | | | | | ■ | ■ |

# Atodiad 2 – Amserlen Fanwl

Cam Allweddol 4 – CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd (Rheoliadau 17 i 21)

| | Tac 2022 | Rha 2022 | Ion 2023 | Chw 2023 | Maw 2023 | Ebr 2023 | Mai 2023 | Meh 2023 | Gor 2023 | Aws 2023 | Med 2023 | Hyd 2023 | Tac 2023 | Rha 2023 | Ion 2024 | Chw 2024 | Maw 2024 | Ebr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Paratoi Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, Adroddiad yr ARhC ac Adroddiad yr AoG (AAS) | ■ | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd am y CDLl drafft i'w Archwilio gan y Cyhoedd, yr AoG (AAS) a'r ARhC | | | | | | ■ | ■ | ■ | ■ | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi'r CDLl drafft i'w Archwilio gan y Cyhoedd, yr AoG (AAS) a'r ARhC i ymgynghori arnynt | | | | | | | | | | | ■ | ■ | | | | | | |

# Atodiad 2 – Amserlen Fanwl

| | Tac 2022 | Rha 2022 | Ion 2023 | Chw 2023 | Maw 2023 | Ebr 2023 | Mai 2023 | Meh 2023 | Gor 2023 | Aws 2023 | Med 2023 | Hyd 2023 | Tac 2023 | Rha 2023 | Ion 2024 | Chw 2024 | Maw 2024 | Ebr 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Asesu ac ystyried y sylwadau a ddaeth i law mewn perthynas â'r Cynllun drafft i'w Archwilio gan y Cyhoedd, Adroddiad yr AoG (AAS) ac Adroddiad yr ARhC | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd am y sylwadau ar y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd, Adroddiad yr AoG (AAS) ac Adroddiad yr ARhC | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

# Atodiad 2 – Amserlen Fanwl

Cam Allweddol 5 – Cyflwyno i Lywodraeth Cymru (Rheoliad 22)

| | Mai 2024 |
|---|---|
| Cyflwyno i Lywodraeth Cymru. | |

Cam Allweddol 6 – Archwiliad gan gynnwys Cyfarfod Cyn Gwrandawiad (Rheoliad 23)

| | Mai 2024 | Meh 2024 | Gor 2024 | Aws 2024 | Med 2024 | Hyd 2024 | Tac 2024 | Rha 2024 | Ion 2025 | Chw 2025 | Maw 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrandawiadau'r Archwiliad ac ysgrifennu adroddiad yr Arolygydd | | | | | | | | | | | |

Cam Allweddol 7 – Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24)

| | Mehefin 2025 |
|---|---|
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | |

# Atodiad 2 – Amserlen Fanwl

Cam Allweddol 8 – Mabwysiadu (Rheoliad 25 a 25A)

| | Medi 2025 |
|---|---|
| Mabwysiadu'r CDLI newydd | |

Cam Allweddol 9 - Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37)

| | Medi 2025 ymlaen |
|---|---|
| Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37) | |

# Atodiad 3 – Risgiau i’r Amserlen

Mae’r risgiau wedi’u categoreiddio yn ôl eu heffaith debygol ar yr amserlen yn hytrach na pha mor debygol yw hi y byddant yn digwydd.

### Risgiau Isel

Yr adnoddau ariannol sydd ar gael

Mae cronfa wrth gefn wedi’i sefydlu ar gyfer adolygu a disodli’r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y costau’n cael eu cynnwys yng nghyllidebau gwasanaethau’r dyfodol.

### Etholiadau Lleol/Cyffredinol

Ni ragwelir y bydd yna etholiad lleol arall yn ystod amserlen paratoi’r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mae etholiadau cyffredinol yn cael llai o effaith ar wneud penderfyniadau’n lleol, ond bydd hyn yn cael ei fonitro, gan wneud unrhyw addasiadau yn unol â’r sefyllfa.

### Cylchoedd Pwyllgorau/amserlenni cyfarfodydd

Caniatáu ar gyfer hyblygrwydd yn yr amserlen a sicrhau bod camau’r Cynllun Datblygu Lleol newydd yn cael eu cynnwys yn y rhaglenni gwaith i'r dyfodol perthnasol.

### PCAC yn methu cadw at yr amserlen

Cysylltu â PCAC ar gamau allweddol paratoi’r Cynllun.

### Her Gyfreithiol

Sicrhau y cydymffurfir â’r holl ofynion statudol.

### Newid mewn Deddfwriaeth, Polisïau neu Ganllawiau

Monitro polisïau a chanllawiau sy’n cael eu datblygu ac ymateb fel bo’n briodol. Parhau i siarad â swyddogion Llywodraeth Cymru i geisio canllawiau ar faterion lle mae yna oedi gyda datblygiad polisïau

# Atodiad 3 – Risgiau i’r Amserlen

## Risgiau Canolig

### Lefelau annisgwyl o uchel o ymatebion i’r ymgynghoriad/ ymgysylltiad

Caniatáu ar gyfer hyblygrwydd yn yr amserlen a sicrhau bod systemau gweinyddu ar waith cyn cychwyn ar gamau allweddol. Sicrhau bod yr ymgysylltiad yn gynhwysfawr er mwyn lleihau’r gwrthwynebiadau.

### Oedi gyda chael ymatebion, gwybodaeth neu dystiolaeth

Sicrhau ymgysylltiad cynnar gydag ymgyngoreion statudol a rhaglennu’r gwaith o gasglu tystiolaeth.

### Diffyg consensws neu gytundeb ar faterion allweddol

Sicrhau ymgysylltiad parhaus gydag aelodau a budd-ddeiliaid allweddol.

### Risgiau Uchel

Oedi gydag Argraffu neu Gyfieithu

Sicrhau y rhoddir digon o rybudd ar gyfer ceisiadau argraffu / cyfieithu.

### Adnoddau ac argaeledd staff

Ceisio cymorth gan dimau/awdurdodau cynllunio eraill a blaenoriaethu recriwtio os bydd swyddi gwag yn codi.

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

## Cynllun datblygu lleol newydd 2018 - 2033

### Dogfennau sydd eu hangen ar gyfer yr ymgynghoriad ar y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd (i gyd-fynd â'r CDLl)

Mae'r ddogfen hon yn ystyried yr effaith y bydd Covid-19 yn ei chael ar y sail dystiolaeth y mae ei hangen i gefnogi polisïau'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd, 2018 i 2033.

Cynhelir yr asesiad risg gan ddefnyddio system oleuadau traffig coch, oren a gwyrdd, ar sail yr egwyddorion canlynol:

Allwedd ar gyfer y 'Risg yn ôl COG' (canllawiau)

| Thema / Pwnc | Canolbwyntio ar bwnc polisi lleol: newidiadau i bolisi cenedlaethol, angen dull polisi newydd – canslo, addasu, lliniaru, gwytnwch; lliwiau: |
|---|---|
| Gwyrdd | dim angen newid, |
| Oren | cyflwyno terminoleg newydd ond dim newid sylfaenol i hanfod y polisi |
| Coch | dull cwbl newydd ar gyfer polisi lleol |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| | |
|---|---|
| Amser | Canolbwyntio ar amserlenni (ar gyfer cyflawni polisi drafft gyda thystiolaeth); lliwiau: |
| Gwyrdd | cyflawni o fewn y chwe mis nesaf heb adnoddau ychwanegol (allanol) |
| Oren | cyflawni mewn llai na deuddeg mis ond yn dibynnu ar fewnbwn allanol neu dystiolaeth wedi'i diweddaru |
| Coch | ansicrwydd mawr oherwydd dibyniaeth ar dystiolaeth neu staff allanol neu ddiffyg cyfeiriad gwleidyddol |
| Sail Dystiolaeth | Canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael; lliwiau: |
| Gwyrdd | mae'r holl wybodaeth ar gael yn ddidrafferth i gefnogi polisi lleol |
| Oren | gellir cael gafael ar y wybodaeth o fewn cyfnod byr ond efallai y bydd angen mân ddiwygiad i bolisi lleol |
| Coch | nid yw'r wybodaeth ar gael; dibyniaeth fawr ar bobl eraill heb unrhyw amserlenni; mae angen tystiolaeth newydd |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Dogfennau Allweddol y CDLI | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol | Dim effaith. Y gofrestr yn dangos y safleoedd a gyflwynwyd yn unig | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim | Dim |
| 2. Adroddiad ymgynghori cychwynnol | Adroddiad ar yr ymgynghoriad ar y Strategaeth ddrafft a Ffefrir a gynhaliwyd cyn Covid | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Cynnwys cyfeiriad at bandemig Covid ar ôl yr ymgynghoriad, gan nodi y bydd unrhyw newid yn y pwyslais yn cael ei adlewyrchu yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd.. | Dim |
| 3.1 Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir | Dim effaith - wedi'i gwblhau | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim effaith | Dim |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Dogfennau Allweddol y CDLI | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.2 Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol | Gallai'r data sylfaenol fod wedi newid a'i fod wedi'i oedi o ganlyniad i Covid. Angen diweddariad ar y data a'r tueddiadau. Mae'r fframwaith yn dal i fod yn ddilys | Gwyrdd | Oren | Oren | Asesu ar sail y data gorau sydd ar gael adeg paratoi'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd | Asesiad ailadroddol sy'n drwm ar adnoddau ac sy'n gofyn am ddata cyfoes. Data wedi'i oedi o ganlyniad i Covid. Adnoddau cyfyngedig o ganlyniad i Covid. |
| 4. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd | Gallai'r data fod wedi newid a bod oedi gyda chael gafael ar y data o ganlyniad i Covid. | Gwyrdd | Oren | Oren | Asesu ar sail y data gorau sydd ar gael adeg paratoi'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd | Data wedi'i oedi o ganlyniad i Covid. Adnoddau cyfyngedig o ganlyniad i Covid. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Dogfennau Allweddol y CDLI | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. Asesiad o'r Effaith ar Iechyd | Mae'r AEI eisoes yn edrych ar grwpiau diamddiffyn a allai fod wedi'u heffeithio'n waeth gan Covid | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Os bydd y Strategaeth a Ffefrir yn newid yn sylweddol, bydd angen ailedrych ar yr AEI; gellir gwneud hyn dros y we. Newidiadau sylweddol yn annhebygol. | Dim |
| 6. Hunan-asesiad Prawf Cadernid | Gallai cynlluniau newydd fod wedi'u cyhoeddi, h.y. gallai'r FfDC a'r sail dystiolaeth fod wedi'u diweddaru neu fod wedi newid. Gallai cyhoeddi'r FfDC gael effaith ar strategaeth y CDLl os bydd y FfDC yn newid yn sylweddol. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Bydd angen diweddaru'r rhestr wirio Hunanasesu ar y cam Archwilio gan y Cyhoedd. | Dim |
| 7. Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb | Dim effaith - angen ei baratoi. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Paratoi asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. | Dim |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Dogfennau Allweddol y CDLI | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 8. Asesiad o'r Effaith ar Les | Ychydig iawn o effaith, gan fod angen paratoi diweddariad neu asesiad ar y cyd ac mae cyfeiriadau at Les i'w gweld drwy gydol y polisïau a'r dystiolaeth. Mwy o bwysigrwydd yn llygaid y cyhoedd. Dylid gwella'r ffocws lles, h.y. hyrwyddo teithio llesol er y bydd oedi gyda'r dystiolaeth. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Paratoi Asesiad o Les gyda digon o hyblygrwydd i ganiatáu newidiadau yn ffocws y polisi a'r dystiolaeth. | Gallai diffyg tystiolaeth achosi oedi. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Papur Cefndir | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9.Dewisiadau twf – twf yn y boblogaeth a'r aelwydydd | Ffigurau diwygiedig wedi'u hoedi gan Lywodraeth Cymru. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim – wedi cael data gan LIC ac mae demograffwr wedi cynnal dadansoddiad. Lefelau twf yn y Strategaeth a Ffefrir i gael eu cadarnhau drwy adrodd yn ôl ar y Strategaeth a Ffefrir. | Dim. |
| 10. Strategaeth Ofodol a gwasgariad datblygiadau | Gallai'r angen am hygyrchedd drwy gerdded/beicio gael effaith fechan ar y strategaeth mewn perthynas ag anheddau mwy gwledig.<br>Gallai asesiadau canol tref gael effaith. | Gwyrdd | Oren | Oren | Ailasesu. | Angen mân ailasesiad. |
| 11. Hierarchaeth Aneddiadau | Aros am ddiweddariad ar hierarchaeth aneddiadau ac adolygiadau ffiniau nes bydd yr asesiad o safleoedd ymgeisiol wedi'i gwblhau, sydd wedi'i oedi | Gwyrdd | Oren | Gwyrdd | Dim – diweddaru'r asesiad pan fydd y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd yn fwy eglur a'r asesiad o safleoedd ymgeisiol wedi'i gwblhau. | Yr oedi gydag asesu safleoedd ymgeisiol wedi cael effaith |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Papur Cefndir | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol | Angen rhoi mwy o bwyslais ar fynediad drwy gerdded/beicio, mannau agored a seilwaith gwyrdd | Gwyrdd | Oren | Gwyrdd | Adolygu'r meini prawf asesu i sicrhau bod cynaliadwyedd a mynediad drwy gerdded/beicio yn cael blaenoriaeth. Cyflwyno system bwysoli ar gyfer asesu? | Dim |
| 12. Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol | Oedi gydag ymatebion gan ymgyngoreion oherwydd bod staff wedi cael eu hadleoli a'r ffocws ar faterion sy'n ymwneud â Covid. | Gwyrdd | Oren | Oren | Safleoedd cychwynnol eisoes wedi'u hanfon i'r ymgyngoreion allweddol. Gwneud cais am amserlen ar gyfer cyflwyno unrhyw ymatebion sydd heb eu cyflwyno. | Bydd oedi gydag ymatebion gan yr ymgyngoreion allweddol yn gohirio'r asesiad o safleoedd a'r broses argymell. Bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLI i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Papur Cefndir | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol | Mwy o alw am fand eang ymarferol oherwydd bod pobl yn gweithio gartref. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Cynnwys meini prawf ychwanegol ar gyfer cryfder band eang yn y matrics asesu? | Dim |
| 12. Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol | Gallai tirfeddianwyr weld cyfle i leihau rhwymedigaethau cynllunio posib. | Gwyrdd | Oren | Oren | Sicrhau bod tirfeddianwyr/hyrwyddwyr yn darparu datganiad o ymarferoldeb sy'n cynnwys effaith bosib dirywiad o ran y wybodaeth y mae ei hangen am ddarpariaeth ac ymarferoldeb. | Gallai achosi rhywfaint o oedi; bydd tirfeddianwyr angen digon o amser i ddarparu gwybodaeth fanwl. |
| 13. Cyflenwad a Darpariaeth Tai | Nid yw goblygiadau ffyrlo a gwyliau treth stamp yn hysbys yn yr hirdymor.<br>Gallai safleoedd sydd wrthi'n cael eu hadeiladu gael eu hoedi. | Gwyrdd | Oren | Oren | Sicrhau cyswllt cynnar a rheolaidd gydag adeiladwyr tai i drafod unrhyw broblemau. Monitro gweithgarwch a thai a gwblheir. Ysgrifennu at ddatblygwyr i geisio sicrwydd o ran cyflawni ac amserlenni? | Dim, gan y byddai angen gwybodaeth arnom am ragolygon cyflawni dan amgylchiadau arferol.. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Papur Cefndir | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 13. Cyflenwad a Darpariaeth Tai | Gostyngiad posib mewn ceisiadau cynllunio a nifer yr unedau a adeiladir os bydd dirywiad sylweddol yn y farchnad dai. | Gwyrdd | Oren | Oren | Sicrhau cyswllt cynnar a rheolaidd gydag adeiladwyr tai i drafod unrhyw broblemau. Monitro gweithgarwch, tai a gwblheir a gwerthiannau. | Dim |
| 13. Cyflenwad a Darpariaeth Tai | Ymarferoldeb, gallai rhai safleoedd geisio diwygiadau i rwymedigaethau i barhau | Gwyrdd | Oren | Gwyrdd | Sicrhau mai dim ond safleoedd gyda chyfradd uchel o sicrwydd sy'n cael eu cynnwys yn y cyflenwad tir ar gyfer tai. Ysgrifennu at ddatblygwyr i geisio sicrwydd o ran cyflawni ac amserlenni? | Dim neu ychydig iawn, gan y byddai angen i ni wneud hyn beth bynnag |
| 13. Cyflenwad a Darpariaeth Tai | Gallai mwy o alw am erddi a mannau awyr agored gael effaith ar ddwyseddau cyraeddadwy. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Efallai y bydd angen mwy o ddyraniadau tai os yw'r dwyseddau cyfartalog yn lleihau. | Dim |
| 14. Tai Fforddiadwy | Gallai'r angen am dai fforddiadwy gynyddu os bydd yr economi'n mynd i ddirwasgiad. | Gwyrdd | Coch | Coch | Diweddaru'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) ar ôl cael y fethodoleg ddiwygiedig. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLI i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Papur Cefndir | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14. Tai Fforddiadwy | Gallai mwy o angen godi am dai cymdeithasol.. | Gwyrdd | Coch | Coch | Diweddaru'r AFDL ar ôl cael y fethodoleg ddiwygiedig. Ei ddefnyddio i lywio gofynion ar y cyd ag astudiaeth Ymarferoldeb. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLI i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |
| 14. Tai Fforddiadwy | Gallai nifer y Tai Fforddiadwy a ddarperir ar safleoedd marchnad ddirywio oherwydd ymarferoldeb. | Gwyrdd | Coch | Coch | Diweddaru'r AFDL ar ôl cael y fethodoleg ddiwygiedig. Ei ddefnyddio i lywio gofynion ar y cyd ag astudiaeth Ymarferoldeb.. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLI i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |
| 14. Tai Fforddiadwy | Cynnydd posib mewn safleoedd Tai Fforddiadwy os ceir cyllid grant; deniadol i ddatblygwyr gan nad oes angen gwerthiannau. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Ystyried y sefyllfa bolisi ar gynlluniau 100% o dai fforddiadwy. Cysylltiad cynnar a rheolaidd gyda LIC a LCC ynglŷn â phrosiectau posib ac amserlenni. | Dim |
| 14. Tai Fforddiadwy | Cynnydd posib yn y galw am Dai Amlfeddiannaeth a thai a rennir. Ymrwymiad i beidio gadael i bobl ddigartref fynd yn ôl ar y stryd ar ôl Covid. | Oren | Gwyrdd | Gwyrdd | Adolygu'r polisi Tai Amlfeddiannaeth a thai a rennir ar gyfer y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Adolygu safonau gofod. Ystyried parthau cyfyngedig i Dai Amlfeddiannaeth? | Dim |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Papur Cefndir | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15. Papur cefndir dethol Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr | Bydd yr Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn bwydo'r papur. Bydd oedi o ran cwblhau'r Asesiad hwn yn cael effaith ar rai agweddau ar y papur.<br>Nid yw'n debygol y bydd effaith ar agweddau sy'n ymwneud â'r meini prawf dethol safleoedd eu hunain.. | Gwyrdd | Coch | Coch | Amserlenni'n dibynnu ar y gallu i gynnal cyfweliadau. Sicrhau bod yr aelodau'n cael eu briffio'n llawn fel nad oes gormod o oedi yn y broses gymeradwyo. | Bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLI i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |
| 16. Mwynau | Dim | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim. | Dim. |
| 17. Gwastraff | Dim | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim. | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Papur Cefndir | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i’w Cymryd | Effaith ar gyflawni’r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18. Y Gymraeg a Diwylliant Cymru | Bydd oedi gyda chael gafael ar ddata a datblygu’r sail dystiolaeth.<br>Effaith fechan bosib ar ddysgwyr Cymraeg/ grwpiau Cymraeg o ran gallu cyfarfod wyneb yn wyneb neu yn y ffordd arferol | Gwyrdd | Oren | Oren | Dim camau i’w cymryd | Oedi gyda chael gafael ar ddata a budd-ddeiliaid. |
| 19. Tai Amlfeddiannaeth | Gallai ffigurau / twf tai a’r galw am dai fforddiadwy gael effaith. Mae pobl a oedd yn ddigartref wedi cael llety. Efallai y bydd mwy o angen/alw am Dai Amlfeddiannaeth. Oedi gyda data a chyfyngiadau ar yr adnoddau. Mae’r polisi trwyddedu wedi mynd drwy’r Cabinet ar 28 Gorffennaf 2020. | Oren | Oren | Oren | Adolygu’r polisi Tai Amlfeddiannaeth a chysylltu ymhellach gyda’r adran drwyddedu er mwyn datblygu Tai Amlfeddiannaeth o ansawdd a rheoli crynodiadau. | Oedi gyda chael gafael ar ddata a budd-ddeiliaid. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Sail Dystiolaeth | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20. Archwiliadau Iechyd Canol Trefi | Dim | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim, gan fod y ddogfen wedi'i chwblhau yn 2018. | Dim. |
| NEWYDD: Asesiad Canol Trefi | Cyflwyno tystiolaeth a gofynion polisi newydd: asesiad canol trefi a gofynion prawf dilyniannol. | Oren | Coch | Coch | Maes pwnc newydd sy'n cynnwys asesu pob darpar ddefnydd o ganol trefi:<br>(1) Nodi beth sydd ei angen a beth y mae'n rhaid ei gynnwys yn yr asesiad;<br>(2) Adolygu ffiniau canol trefi yn Sir Ddinbych;<br>(3) Adolygu eiddo sydd ar gael;<br>(4) Archwilio ffyrdd o gydweithio ag adrannau eraill y Cyngor. | Gallai'r canlyniadau gael effaith ar yr hierarchaeth aneddiadau diwygiedig a'r gwaith o nodi trefi twf.<br>Effaith arwyddocaol ar adnoddau: staff, cyllid a chyflawni polisi hanfodol. |
| 21. Astudiaeth Capasiti Manwerthu (ledled y Sir) | Cau siopau bychain / annibynnol; ffigurau diweddaraf ar wariant yng nghanol trefi. | Gwyrdd | Oren | Oren | Penodi ymgynghorydd i gynnal diweddariad; sefydlu a yw effaith Covid yn un byrdymor (6 mis) neu a fydd yna effaith hirdymor.. | Oedi o ran llunio polisïau a dethol dyraniadau tir manwerthu. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Sail Dystiolaeth | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 22. Asesiad ymarferoldeb y CDLl.<br>Asesiadau ymarferoldeb ar gyfer safleoedd allweddol? | Effaith bosib ar y farchnad dai a'r economi ehangach. Costau uwch deunyddiau a phrisiau tai a gwerth masnachol disymud neu ddirywiol. | Oren | Coch | Coch | Cynnal asesiad ymarferoldeb diwygiedig pan fydd yr effeithiau economaidd yn fwy amlwg.<br>Sicrhau cyswllt cynnar a rheolaidd gydag adeiladwyr tai i drafod unrhyw broblemau. Monitro gweithgarwch, tai a gwblheir a gwerthiannau. | Oedi. Ansicrwydd. |
| 23. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | Potensial am ganrannau uwch o aelwydydd yn cael eu prisio allan o'r farchnad. Gwyriad dros dro neu broblem strwythurol fwy hirdymor? | Gwyrdd | Coch | Coch | Aros am y fethodoleg AFDL ddiwygiedig ac yna diweddaru'r AFDL. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLl i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |
| 23. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | Gallai'r arafu o ran adeiladu tai leihau'r cyflenwad o Dai Fforddiadwy. | Gwyrdd | Coch | Coch | Aros am y fethodoleg AFDL ddiwygiedig ac yna diweddaru'r AFDL. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLl i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Sail Dystiolaeth | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 23. Asesiad o'r Farchnad Dai Leol | Cynnydd sylweddol posib mewn cofrestriadau Un Llwybr Mynediad at Dai (ULlMaD). | Gwyrdd | Coch | Coch | Aros am y fethodoleg AFDL ddiwygiedig ac yna diweddaru'r AFDL. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLl i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |
| 24. Yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Newydd | Oedi gyda chwblhau'r Asesiad oherwydd nad oedd yn bosib cynnal cyfweliadau gyda'r cymunedau. | Gwyrdd | Coch | Coch | Amserlenni'n dibynnu ar y gallu i gynnal cyfweliadau. Sicrhau bod yr aelodau'n cael eu briffio'n llawn fel nad oes gormod o oedi yn y broses gymeradwyo. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLl i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |
| 24. Yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Newydd | Mae amhariad i batrymau teithio traddodiadol yn bosib. | Gwyrdd | Coch | Coch | Bydd rhaid i'r ymgynghorydd sy'n cynnal yr Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr roi gwybod am unrhyw drafferthion. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLl i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Sail Dystiolaeth | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 24. Yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Newydd | Efallai y bydd yna gynnydd yn y galw am safleoedd preswyl os bydd teuluoedd sydd ar hyn o bryd mewn llety brics a morter yn cael eu hysgogi i geisio dychwelyd at lety traddodiadol y tu allan i ardaloedd adeiledig. | Gwyrdd | Coch | Coch | Nid yw'n hysbys nes y ceir canlyniadau'r Asesiad. | Mae'n debyg y bydd hyn yn oedi datblygiad y CDLI i'r Cam Archwilio gan y Cyhoedd. |
| 25. Asesiad Capasiti Ynni Adnewyddadwy | Mwy o ddiddordeb a ffocws. Symudiad polisi posib i LEAP. LIC yn cysylltu â'r rheoleiddiwr er mwyn gwella'r broses o gipio data a monitro. Oedi oherwydd blaenoriaethau eraill. | Gwyrdd | Oren | Gwyrdd | Dim camau i'w cymryd | Oedi o ran cwblhau, gan ei fod yn dibynnu ar dystiolaeth a pholisïau eraill i'w gwblhau - safleoedd ymgeisiol, adolygiad o'r rhwystrau glas ac ati. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Sail Dystiolaeth | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 26. Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol | Oedi o ran cyflwyno prif safleoedd ar gyfer yr ACLIS.. | Gwyrdd | | Gwyrdd | Dim. Oedi oherwydd bod tasgau eraill wedi'u gohirio. | Ychydig iawn o effaith, gan y gall y gwaith fynd rhagddo pan fydd y safleoedd ar gael i'w hasesu. |
| 27. Cynllun Seilwaith | Mae polisi cenedlaethol yn canolbwyntio ar deithio llesol a gwytnwch hinsawdd. Mae gofynion seilwaith yn newid i gefnogi teithio llesol a gweithio gartref. Oedi gyda'r gwaith.  Adnoddau cyfyngedig. Oedi gyda thystiolaeth a data. | Gwyrdd | Oren | Oren | Derbyn y gallai fod angen adolygu'r ddogfen.<br>Creu fframwaith i ganiatáu hyblygrwydd o fewn y ddogfen ddrafft er mwyn gallu ei diweddaru'n ddidrafferth gydag unrhyw newidiadau.<br>- Llwybrau teithio llesol;<br>- Creu parthau cerddwyr;<br>- Seilwaith digidol; | Oedi gyda chael gafael ar ddata a budd-ddeiliaid. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Sail Dystiolaeth | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 28. Adolygiad a rhagolygon tir cyflogaeth | Y galw am fath a maint o dir cyflogaeth.. | Gwyrdd | Oren | Oren | Mae'r Adolygiad Tir cyflogaeth wedi'i gwblhau ond bydd angen ailedrych arno. Aros i strategaethau a rhaglenni buddsoddi gael eu cyhoeddi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru; ailedrych ar y cynnig tir cyflogaeth yn Sir Ddinbych. | Oedi gyda chael gafael ar ddata a budd-ddeiliaid. |
| 29. Memorandwm o Ddealltwriaeth gyda CBS Conwy - gweithio ar y cyd | Dim effaith. Ymgynghoriad yn mynd rhagddo gyda Conwy. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim effaith | Dim |
| 30. Asesiad Mannau Agored | Asesiad wedi'i gwblhau yn 2018. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim, gan fod y ddogfen wedi'i chwblhau yn 2018.. | Dim. |
| 31. Adolygiad o rwystrau glas / lletemau glas | Dim effaith. Angen ei gynnal. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim. | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Sail Dystiolaeth | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLlN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 32. Arolwg Deiliadaeth Cartrefi Newydd | Dim bwriad i gynnal arolwg wedi'i ddiweddaru. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim | Dim |
| 33. Cynllun / Asesiad Seilwaith Gwyrdd | Dim Angen ei baratoi | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

## Cynllun datblygu lleol newydd 2018 - 2033

### Polisïau ar gyfer y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd

Mae'r ddogfen hon yn ystyried yr effaith y bydd Covid-19 yn ei chael ar y Cynllun Datblygu Lleol Newydd, 2018 i 2033. Daw'r polisïau a asesir yn y ddogfen hon o'r Strategaeth Ddrafft a Ffefrir, yr ymgynghorwyd arni yn 2019. Mae'r polisïau hyn yn cael eu datblygu er mwyn darparu'r Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd ar gyfer Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018 - 2033.

Cynhelir yr asesiad risg drwy ddefnyddio system oleuadau traffig coch, oren a gwyrdd, ar sail yr egwyddorion canlynol:

Allwedd ar gyfer y 'Risg yn ôl COG' (canllawiau)

| Thema / Pwnc | Canolbwyntio ar bwnc polisi lleol: newidiadau i bolisi cenedlaethol, angen dull polisi newydd – canslo, addasu, lliniaru□ gwytnwch; lliwiau: |
|---|---|
| Gwyrdd | dim angen newid |
| Oren | cyflwyno terminoleg newydd ond dim newid sylfaenol i hanfod y polisi |
| Coch | dull cwbl newydd ar gyfer polisi lleol |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| | |
|---|---|
| Amser | Canolbwyntio ar amserlenni (ar gyfer cyflawni polisi drafft gyda thystiolaeth); lliwiau: |
| Gwyrdd | cyflawni o fewn y chwe mis nesaf heb adnoddau ychwanegol (allanol) |
| Oren | cyflawni mewn llai na deuddeg mis ond yn dibynnu ar fewnbwn allanol neu dystiolaeth wedi'i diweddaru |
| Coch | ansicrwydd mawr oherwydd dibyniaeth ar dystiolaeth neu staff allanol neu ddiffyg cyfeiriad gwleidyddol |
| Sail Dystiolaeth | Canolbwyntio ar yr adnoddau sydd ar gael; lliwiau: |
| Gwyrdd | mae'r holl wybodaeth ar gael yn ddidrafferth i gefnogi polisi lleol |
| Oren | gellir cael gafael ar y wybodaeth o fewn cyfnod byr ond efallai y bydd angen mân ddiwygiad i bolisi lleol |
| Coch | nid yw'r wybodaeth ar gael; dibyniaeth fawr ar bobl eraill heb unrhyw amserlenni; mae angen tystiolaeth newydd |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Agweddau Allweddol (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Materion a Heriau Allweddol | Mae'r materion a'r heriau allweddol yn dal i fod yn ddilys. Gallai Covid-19 gynyddu pwysigrwydd nifer o faterion, ond nid ydynt wedi'u trefnu yn ôl blaenoriaeth. Efallai y bydd angen diwygiad bychan i'r geiriad. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Pwysigrwydd mannau agored a rôl canol trefi wedi cynyddu. Angen ail-werthuso'r angen am dir cyflogaeth strategol? Cynnwys cysylltedd ddigidol dan seilwaith?<br>Ychwanegu cyfeiriad at gadw pellter cymdeithasol yn y materion canol tref? | Dim. |
| Gweledigaeth | Nid yw Covid-19 wedi effeithio ar y weledigaeth. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim angen newid. | Dim. |
| Amcanion | Gallai rhai amcanion fod wedi cynyddu yn eu pwysigrwydd, ond gan nad ydynt wedi'u trefnu yn ôl blaenoriaeth, dim ond mân newidiadau o ran geiriad fydd eu hangen. | Oren | Gwyrdd | Gwyrdd | Cynnwys cyfeiriad at seilwaith digidol yn Amcan 5?<br>Cynnwys cyfeiriad at Covid-19 yn Amcan 8? | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Agweddau Allweddol (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dewis Twf a Ffefrir | Mae yna oedi gyda'r ffigurau aelwydydd diwygiedig gan Lywodraeth Cymru. Galw newidiol am fath a maint o dir cyflogaeth. | Gwyrdd | Oren | Coch | Adolygu'r opsiynau twf o ystyried yr amcanestyniadau aelwydydd y mae LIC newydd eu cyhoeddi a'r newidiadau tebygol i alw am dir cyflogaeth.<br>Pryder: dull rhagweld tir cyflogaeth ar gyfer y 15 mlynedd nesaf. | Gallai fod yn sylweddol; mae'r oedi o ran amser yn dibynnu ar y newidiadau i'r dystiolaeth / yr angen am dystiolaeth newydd. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Agweddau Allweddol (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Hierarchaeth Aneddiadau | Egwyddorion cynaliadwyedd wedi'u hymgorffori yn yr asesiad. Annhebygol y bydd unrhyw newidiadau oherwydd Covid-19, er y bydd oedi gyda chategoreiddio aneddiadau'n derfynol ar gyfer y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd oherwydd oedi o ran gallu asesu'r safleoedd ymgeisiol yn llawn | Gwyrdd | Oren | Gwyrdd | Dim angen cymryd camau ychwanegol. Adolygu'r categorïau aneddiadau fel y bwriadwyd cyn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd ar ôl i'r safleoedd ymgeisiol gael eu hasesu. | Dim effaith uniongyrchol. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Agweddau Allweddol (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Strategaeth Ofodol | Mae Covid -19 wedi effeithio'r ffordd y mae pobl yn defnyddio ac yn cael gafael ar wasanaethau, gan gynnwys manwerthu, felly gallai rôl canol trefi fod wedi newid yn y tymor hwy. Efallai fod newid o ran lleoliad y galw am ddatblygiad newydd. | Gwyrdd | Oren | Gwyrdd | Dim. | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 1. Creu Lleoedd g | Mae pob egwyddor yn dal yn ddilys. Darparu lleoedd cynaliadwy yn bwysicach. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Pwysleisio a chryfhau creu lleoedd yn y CDLI i'w Archwilio gan y Cyhoedd. | Dim. |
| 2. Y Gymraeg | Dim effaith uniongyrchol ar y polisi strategol. Effaith fechan bosib ar ddysgwyr Cymraeg/ grwpiau Cymraeg o ran gallu cyfarfod wyneb yn wyneb neu yn y ffordd arferol. Bydd oedi gyda chael gafael ar ddata a datblygu'r sail dystiolaeth i gefnogi'r polisi. | Gwyrdd | Oren | Oren | Dim camau i'w cymryd | Oedi gyda chael gafael ar ddata er mwyn cyflawni'r sail dystiolaeth.. |
| 3. Tai | Angen cyffredinol am dai i gael ei ailasesu yn dilyn rhagamcanion diwygiedig LIC. Gallai Covid-19 effeithio ar gyfraddau genedigaethau, marwolaethau a mudo. | Oren | Oren | Oren | Wedi cael data gan LIC ac mae demograffwr wedi cynnal dadansoddiad. Lefelau twf yn y Strategaeth a Ffefrir i gael eu cadarnhau drwy adrodd yn ôl ar y Strategaeth a Ffefrir. | Oedi gyda chael gafael ar ddata a thystiolaeth. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3. Tai | Gallai Covid-19 effeithio ar gyfraddau fforddiadwyedd wrth i brisiau tai ac incymau amrywio. | Oren | Oren | Oren | Dylai'r Asesiad Diwygiedig o'r Farchnad Dai Leol (AFDL) roi ystyriaeth i effeithiau posib Covid-19 ar incymau a phrisiau tai. Gellir adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r galw am dai a'r math a'r amrywiaeth y mae eu hangen mewn polisïau manwl yn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd. | Oedi gyda chael gafael ar ddata a thystiolaeth. |
| 3. Tai | Efallai y bydd effaith ar ymarferoldeb y farchnad dai. | Oren | Oren | Oren | Cynnwys effeithiau Covid-19 yn y gwaith ymarferoldeb parhaus. Ysgrifennu at ddatblygwyr i geisio sicrwydd o ran cyflawni ac amserlenni? | Oedi gyda chael gafael ar ddata a thystiolaeth. |
| 3. Tai | Efallai y bydd angen adolygu gofynion dwysedd wrth i'r galw am erddi a mwy o fannau awyr agored gynyddu. | Gwyrdd | Oren | Oren | Ymchwilio i ddwyseddau cyfartalog er mwyn cynnig argymhelliad i'w gynnwys yn y CDLl i'w Archwilio gan y Cyhoedd.<br>Efallai y bydd angen mwy o ddyraniadau os bydd y dwyseddau'n lleihau. | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4. Tai Fforddiadwy | Gallai nifer y tai fforddiadwy y mae eu hangen gynyddu os bydd yr economi'n dirywio.<br>Efallai y bydd angen mwy o safleoedd 100% o dai fforddiadwy. | Gwyrdd | Coch | Coch | Angen asesu'r gofyniad cyffredinol am Dai Fforddiadwy.<br>Efallai y bydd angen asesu'r math o Dai Fforddiadwy, h.y. mwy o dai cymdeithasol.<br>Bydd angen ailasesu'r ymarferoldeb.<br>Asesiadau o angen y FfDC a'r AFDL.<br>Ailasesu cyfradd cyflenwi Tai Fforddiadwy, cynnydd mawr ers drafftio'r Strategaeth a Ffefrir? | Anhysbys |
| 4. Tai Fforddiadwy | Cynnydd posib mewn safleoedd Tai Fforddiadwy os ceir cyllid grant; deniadol i ddatblygwyr gan nad oes angen gwerthu ar y farchnad.. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Mae angen polisïau manwl ar gyfraddau tai fforddiadwy a safbwynt polisi ar safleoedd 100% o Dai Fforddiadwy. | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 5. Tir Cyflogaeth /Yr Economi | Galw newidiol am fath a maint o dir cyflogaeth. | Gwyrdd | Coch | Oren | Aros i strategaethau a rhaglenni buddsoddi gael eu cyhoeddi gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru; ailedrych ar y cynnig tir cyflogaeth yn Sir Ddinbych.Denbighshire. | Oedi o ran llunio polisïau a dethol dyraniadau tir. |
| 6. Canol Trefi a Datblygiadau Manwerthu | Ffocws cryfach ar ddefnyddiau heb fod yn rhai masnachol yn nghanol trefi; gofyniad newydd: asesiad canol trefi a gofynion prawf dilyniannol ar gyfer pob defnydd | Oren | Oren | Coch | (1) Nodi beth sydd ei angen a beth y mae'n rhaid ei gynnwys yn yr asesiad newydd;<br>(2) Adolygu ffiniau canol trefi yn Sir Ddinbych;<br>(3) Adolygu'r eiddo sydd ar gael;<br>(4) Archwilio ffyrdd o gydweithio ag adrannau eraill y Cyngor. | Gallai'r canlyniadau gael effaith ar yr hierarchaeth aneddiadau diwygiedig a'r gwaith o nodi trefi twf.<br>Effaith arwyddocaol ar adnoddau: staff, cyllid a chyflawni polisi. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7. Safle Strategol Bodelwyddan | Galw cyflogaeth / dyraniad tir.<br>Ymarferoldeb.<br>Effaith ar ddyluniad ond nid ar ddyraniad. | Oren | Oren | Oren | Dibynnu ar gyflawniad 3ydd parti.<br>Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru | Wedi'i oedi. Effaith arwyddocaol bosib ar gyflawniad. |
| 8. Seilwaith | Mae'r polisi strategol yn ddigon eang i alluogi newidiadau.<br>Mae polisi cenedlaethol yn canolbwyntio ar deithio llesol a gwytnwch hinsawdd. Mae gofynion seilwaith yn newid i gefnogi teithio llesol a gweithio gartref, gan gynnwys mwy o ffocws ar seilwaith digidol. Oedi gyda'r gwaith.  Adnoddau cyfyngedig. Oedi gyda thystiolaeth a data. | Gwyrdd | Oren | Oren | Sicrhau bod polisïau'n adlewyrchu unrhyw newidiadau cenedlaethol ac yn gwella polisïau seilwaith digidol yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.<br>Datblygu sail dystiolaeth. | Oedi wrth gael gafael ar ddata a mewnbwn gan fudd-ddeiliaid allweddol. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 9. Economi Ymwelwyr | Llai o incwm, efallai y bydd rhai busnesau twristiaeth angen dull mwy hyblyg i'w helpu i oroesi yn y tymor byr/canolig. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Nid oes angen unrhyw newid i'r polisi strategol. Efallai y bydd polisïau manwl i'w harchwilio gan y cyhoedd angen mwy o hyblygrwydd. | Dim. |
| 10. Cludiant a Hygyrchedd | Mae'r polisi strategol yn ddigon eang i ymgorffori unrhyw newidiadau. Cynnydd posib mewn teithio llesol / beicio.<br><br>Posibilrwydd o greu mwy o barthau cerddwyr. Gofyniad posib i ddarparu gwasanaethau cludiant cyhoeddus ychwanegol, er fod anawsterau ymarferoldeb o ystyried y gostyngiad yn y defnydd yn ystod Covid-19. | Gwyrdd | Oren | Oren | Sicrhau bod polisïau'n adlewyrchu unrhyw newidiadau cenedlaethol ac yn cynnwys seilwaith digidol yn y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd.<br><br>Datblygu sail dystiolaeth. | Oedi wrth gael gafael ar ddata a mewnbwn gan fudd-ddeiliaid allweddol. |
| 11. Mwynau | Dim. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim. | Dim. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau (Wedi'u Rhestru yn y Strategaeth a Ffefrir) | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 12. Rheoli Gwastraff | Dim. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim. | Dim. |
| 13. Yr Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig | Mae'r polisi strategol yn ddigon eang i alluogi newidiadau. | Gwyrdd | Oren | Oren | Sicrhau bod polisïau'n adlewyrchu unrhyw newidiadau i bolisïau cenedlaethol ac ystyried mesurau diogelu ychwanegol yn y polisïau manwl ar gyfer y Cynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd. | Oedi wrth gael gafael ar ddata a mewnbwn gan fudd-ddeiliaid allweddol. |

# Atodiad 4 – Tablau Effaith Covid

| Polisïau / Camau Ychwanegol | Effaith COVID | Thema | Amser | Tystiolaeth | Camau Gweithredu/Lliniaru i'w Cymryd | Effaith ar gyflawni'r CDLIN |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 14. Newid Hinsawdd | Dim effaith uniongyrchol gan nad yw'r polisi wedi'i ddrafftio – angen polisi yn y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Angen polisi yn y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd.<br>Dylunio polisi – i'w ymgorffori.<br>Adlewyrchu lle mae'n cael ei ystyried?<br>Defnyddio fel thema?<br>Gwytnwch – yn cynnwys ansawdd aer, perygl llifogydd. | Dim. |
| 15. Datblygu Fframwaith Monitro ar gyfer polisïau lleol. | Dim. | Gwyrdd | Gwyrdd | Gwyrdd | Dim. Efallai yr achosir oedi oherwydd yr oedi wrth ddatblygu polisïau ac ati. | Dim. |

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

## Cyrff Ymgynghori Penodol

Llywodraeth Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC)

## Awdurdodau Lleol Cyfagos

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Gwynedd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Darparwyr Seilwaith Ynni

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

## Adrannau’r Llywodraeth a Darparwyr Seilwaith

CADW

Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Yr Adran Drafnidiaeth

Dŵr Cymru

Y Swyddfa Gartref

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

Network Rail

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd Conwy a Sir Ddinbych

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Unigolion sy’n berchen ar gyfarpar electronig neu’n ei reoli

(ar gyfer swyddogaethau a arferai gael eu cyflawni gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol)

Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned (a chynghorau tref a chymuned cyfagos)

gweler y rhestr ar wahân isod.

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

## Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned – Sir Ddinbych

| | | |
|---|---|---|
| Aberchwiler | Dyserth | Llangollen |
| Betws Gwerfil Goch | Efenechtyd | Llangynhafal |
| Bodelwyddan | Gwyddelwern | Llanrhaeadr yng Nghinmeirch |
| Bodfari | Henllan | Llantysilio |
| Bryneglwys | Llanarmon yn Iâl | Llanynys |
| Cefn Meiriadog | Llanbedr Dyffryn Clwyd | Nantglyn |
| Clocaenog | Llandegla | Prestatyn |
| Corwen | Llandrillo | Rhuddlan |
| Cyffylliog | Llandyrnog | Y Rhyl |
| Cynwyd | Llanelidan | Rhuthun |
| Dinbych | Llanfair Dyffryn Clwyd | Llanelwy |
| Derwen | Llanferres | Trefnant |
| Tremeirchion Cwm & Waen | | |

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

## Cynghorau Tref a Chymuned Cyfagos

Abergele

Cefn

Ceiriog Uchaf

Cerrigydrudion

Cilcain

Glyn Traian

Gwernaffield

Gwernymyndd

Llanasa

Llanderfel

Llanefydd

Llanfair TH

Llanfihangel GM

Llanfynydd

Llangernyw

Llangwm

Llangynog

Llangywer

Llanrhaeadr Ym Mochnant

Llansannan

Llansantffraid Glyn Ceriog

Mwynglawdd

Nannerch

Nercwys

Pen y Cae

Pentrefoelas

Rhiwabon

Towyn a Bae Cinmel

Treuddyn

Whitford

Ysceifiog

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

## Cyrff Ymgynghori Cyffredinol - Sylwch nad yw’r rhestr hon yn un gyflawn

### Cyrff gwirfoddol sydd o fantais i’r ardal:

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a’r grwpiau canlynol:

Clybiau Chwaraeon a Hamdden

Cymdeithasau Trigolion a Thenantiaid

Dinasyddion Hŷn

Elusennau Gofalwyr

Grwpiau Celfyddydol

Grwpiau Addysg a Hyfforddiant

Grwpiau Amgylcheddol

Grwpiau Anabledd

Grwpiau Crefyddol

Grwpiau Cymunedol

Grwpiau Digartrefedd

Grwpiau Ffydd

Grwpiau Garddwriaethol

Grwpiau Iechyd

Grwpiau Plant

Grwpiau Tai

Grwpiau Treftadaeth a Diwylliant

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

Pwyllgorau Neuaddau Pentref

Y Sgowtiaid

**Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hil, ethnig neu genedlaethol yn yr ardal:**

Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru

Cyngor ar Bopeth

Teithio Ymlaen

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig

**Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn yr ardal:**

Corff Cynrychioliadol yr Eglwys yng Nghymru

Cyngor Hindŵiaid y DU

Cyngor Mwslimiaid Prydain Fawr

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Y Cyngor Arweinyddiaeth Iddewig

Yr Eglwys Babyddol yng Nghymru a Lloegr

Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Yr Eglwys Gristnogol Uniongred yng Nghymru

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

**Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau pobl anabl yn yr ardal:**

Anabledd Cymru

Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

Cyngor Cymru i'r Deillion

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Mind Cymru

Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant i Bobl Anabl

Cyrdd sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhedeg busnesau yn yr ardal:

Campaign for Real Ale

Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)

Cymdeithas Amaethyddol Siroedd Dinbych a Fflint

Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol

Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Cymdeithasau Twristiaeth Lleol a Rhanbarthol

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Ffederasiwn Busnesau Bach

Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr

Fforwm Gwledig Cymru

Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

Rail Freight Group

RenewableUK

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

**Cyrff sy'n cynrychioli buddiannau diwylliant Cymru yn ardal Sir Ddinbych:**

Cydbwyllgor a Phartneriaeth AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy

Cymuned Cadw

Fforwm Gwledig Cymru

Menter Iaith Sir Ddinbych

Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd/Powys

**Ymgyngoreion Eraill - Sylwch nad yw'r rhestr hon yn un gyflawn**

Anabledd Cymru

Arolwg Daearegol Prydain

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

British Aggregates Association

Canolfan Ecoleg a Hydroleg

Cartrefi Cymunedol Cymru

Comisiwn Coedwigaeth Cymru

Comisiwn Dylunio Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Cwmnïau Dŵr

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

Cwmnïau Gweithredu Trenau

Cwmnïau Trydan, Nwy a Thelathrebu a Chwmni'r Grid Cenedlaethol

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Cyngor y Sipsiwn

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad

Cymdeithas y Cerddwyr

Cymdeithasau Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (sy'n cynrychioli'r diwydiant gwastraff)

Cymdeithasau Preswylwyr

Cymorth Cynllunio Cymru

Cyrff Proffesiynol heb eu rhestru'n benodol (e.e. Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Sefydliad Tai Siartredig Cymru, Sefydliad y Peirianwyr Sifil, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff)

Chwaraeon Cymru

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Ffederasiwn Busnesau Bach

Glandŵr Cymru, perchnogion camlesi ac awdurdodau dyfrffyrdd

Grwpiau amgylcheddol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol

Grwpiau cymunedol, cadwraeth ac amwynder lleol, gan gynnwys Grwpiau Ymddiriedolaethau Byd Natur/Cymdeithasau Dinesig

Gwasanaethau Tân ac Achub

Gweithredwyr cludiant lleol

# Atodiad 5 – Grwpiau Ymgynghori

Gweithredwyr Meysydd Awyr

Gweithredwyr Porthladdoedd

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Meysydd Chwarae Cymru

Minerals Products Association

Post Office Property Holdings

Pwyllgor Ymgynghorol ar Gludiant i Bobl Anabl

Rail Freight Group

Sefydliad Trafnidiaeth Cludo Nwyddau

Siambrau Masnach, CBI lleol, Cymdeithasau Busnes lleol a changhennau lleol Sefydliad y Cyfarwyddwyr

Swyddfa Ystâd y Goron

Swyddogion Cyswllt Pensaernïol yr Heddlu

Un Llais Cymru

Undeb Amaethwyr Cymru

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Y Comisiwn Hawliau Anabledd

Yr Asiantaeth Gwasanaethau Amgylcheddol (Gwastraff)

Yr Awdurdod Glo

Yr Awdurdod Hedfan Sifil

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Adroddiad Adolygu**

Mae’r adroddiad statudol angenrheidiol dan adran 69 Deddf 2004 ac / neu Reoliad 41 yn dod i gasgliadau ar weithdrefn adolygu’r Cynllun Datblygu Lleol i’w dilyn ar sail asesiad clir o’r hyn a ystyriwyd a’r hyn y mae angen ei newid a pham, ar sail tystiolaeth.

**Adroddiad Amgylcheddol**

Dogfen y mae Rheoliadau’r Asesiad Amgylcheddol Strategol yn gofyn amdani, sy’n dynodi, yn disgrifio ac yn arfarnu effeithiau arwyddocaol tebygol gweithredu’r cynllun ar yr amgylchedd, gweler Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd.

**Adroddiad AoG Cychwynnol**

Term a ddefnyddir yng Nghynllun Datblygu Lleol Cymru i gyfeirio at yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd a luniwyd ar y cam Strategaeth a Ffefrir. Mae hyn yn asesu dewisiadau’r Cynllun Datblygu Lleol yn erbyn fframwaith yr Arfarniad o Gynaliadwyedd. Ehangir ar yr adroddiad wedyn ar gam y Cynllun Datblygu Lleol i’w Archwilio gan y Cyhoedd, ac yna ei gwblhau ochr yn ochr â’r Datganiad Mabwysiadu.

**Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (Adroddiad AoG)**

Dogfen y mae angen ei chynhyrchu fel rhan o’r broses AoG i ddisgrifio ac arfarnu’r effeithiau arwyddocaol tebygol ar gynaliadwyedd gweithredu’r Cynllun Datblygu Lleol, sydd hefyd yn bodloni’r gofyniad am Adroddiad Amgylcheddol dan Reoliadau’r AAS. Mae Adran 62(6) Deddf 2004 yn gofyn i bob ACLl baratoi adroddiad ar ganfyddiadau AoG y Cynllun Datblygu Lleol.

Caiff yr Adroddiad AoG ei lunio’n gyntaf ar y cam Strategaeth a Ffefrir (yr Adroddiad AoG Interim), ehangir arno ar y Cam Cynllun Datblygu Lleol i’w Archwilio gan y Cyhoedd a’i gwblhau ochr yn ochr â’r Datganiad Mabwysiadu.

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd**

Y broses o bennu cwmpas a lefel manylder Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys yr effeithiau cynaliadwyedd a'r dewisiadau y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio a strwythur a chynnwys Adroddiad yr AoG.

**Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB)**

Bydd hwn yn asesu i ba raddau y mae'r polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus (Rheoliad 37 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005).

**Amcan**

Datganiad o'r hyn a fwriedir sy'n nodi i ba gyfeiriad y dymunir i'r newid mewn tueddiadau fynd.

**Arfarniad o Gynaliadwyedd (AoG)**

Adnodd ar gyfer arfarnu polisïau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol). Mae Adran 62(6) Deddf 2004 yn gofyn i bob ACLl gynnal AoG ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o AoG yn ymgorffori gofynion Rheoliadau'r AAS yn llawn.

Defnyddir y term yn y Llawlyfr hwn i gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol, oni eglurir fel arall.

**Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)**

Term generig a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiadau amgylcheddol sy'n berthnasol i gynlluniau a rhaglenni. Mae proses yr AAS yn deillio o ddeddfwriaeth Ewropeaidd ac wedi'i diffinio ar lefel Ewropeaidd – Cyfarwyddeb 2001/42/EC. Mae Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 (Rheoliadau AAS) yn gofyn am "asesiad amgylcheddol ffurfiol o rai cynlluniau a rhaglenni, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir".

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)**

Sgrinio ac asesu'n briodol y dewisiadau sy'n ofynnol dan Ran 6 Pennod 8 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) (y Rheoliadau Cynefinoedd). Mae hon yn broses ailadroddol gydnabyddedig sy'n helpu pennu'r effaith arwyddocaol debygol ar gynllun neu raglen a, lle bo'n briodol, yn asesu effeithiau niweidiol ar hygrededd safle Ewropeaidd.

Rhaid i awdurdod cymwys gynnal yr asesiad mewn perthynas â chynlluniau neu brosiectau sy'n debygol o gael effaith arwyddocaol (ar eu pennau eu hunain ac ar y cyd â chynlluniau a phrosiectau eraill) ar "safle Ewropeaidd" (gweler paragraff 5.1.2 TAN 5), neu fel mater o bolisi, "safle Ewropeaidd" arfaethedig neu safle Ramsar, dan ddarpariaethau Erthygl 6(3) Cyfarwyddeb y CE 92/43/ECC (y Gyfarwyddeb Cynefinoedd), Rheoliadau 61 a 102 Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (fel y'i diwygiwyd) 2010, a Rheoliad 25 Rheoliadau Cadwraeth Forol Alltraeth (Cynefinoedd Naturiol ac ati) 2007.

**Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)**

Awdurdod cynllunio sy'n gyfrifol am baratoi Cynllun Datblygu Lleol h.y. Cyngor Sir neu Fwrdeistref, neu Awdurdod Parc Cenedlaethol.

**Budd-ddeiliaid**

Buddiannau sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y Cynllun Datblygu Lleol (ac/neu'r AAS) – fel arfer yn cyfranogi drwy gyrff cynrychioliadol.

**Cadernid**

Er mwyn cael ei fabwysiadu, rhaid i Gynllun Datblygu Lleol gael ei bennu 'Gadarn' gan yr Arolygydd Archwilio (Adran 64 Deddf 2004). Nodir profion ac archwiliadau Profion Cadernid ym Mholisi Cynllunio Cymru (pennod 2) a'r Llawlyfr (pennod 8).

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Cam cyn i'r cyhoedd archwilio'r cynllun**

Y camau cyfranogi ac ymgynghori cyn y cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd. Cyfeiria'r Llawlyfr at y cam Dewisiadau Strategol a Strategaeth a Ffefrir, sy'n ymwneud â gweithdrefn y cynllun llawn; mae'r gofynion llai yn ymwneud â ffurf fer gweithdrefn adolygu'r cynllun.

**Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA)**

Gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau mewn Cynllun Datblygu Lleol. Nid yw Canllawiau Cynllunio Atodol yn rhan o'r cynllun datblygu ac nid ydynt yn destun archwiliad annibynnol, ond rhaid iddynt fod yn gyson ag ef a gyda pholisi cynllunio cenedlaethol.

**Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol**

Cofrestr o safleoedd ymgeisiol a baratowyd yn dilyn galwad am safleoedd ymgeisiol gan y Cyngor.

**Corff Ymgynghori**

Awdurdod gyda chyfrifoldebau amgylcheddol sy'n ymboeni ag effeithiau rhoi cynlluniau a rhaglenni ar waith, y mae'n rhaid ymgynghori â nhw dan Reoliadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol h.y. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Cadw.

**Cyfranogiad**

Proses lle gall budd-ddeiliaid a'r gymuned ryngwynebu gyda gwneuthurwyr cynlluniau.

**Cymuned**

Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu buddiannau eraill ac sydd felly'n ffurfio cymunedau buddiant.

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Cynllun Cynnwys Cymunedau (CCC)**

Mae'n gosod cynllun y prosiect a pholisïau'r Cyngor ar gyfer cynnwys cymunedau lleol, gan gynnwys busnesau, wrth baratoi ei Gynllun Datblygu Lleol.  Cyflwynir y CCC i Lywodraeth Cymru fel rhan o'r Cytundeb Cyflawni i gael cytundeb arno.

**Cynllun Datblygu Lleol**

Y cynllun datblygu statudol gofynnol ar gyfer pob ardal awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru dan Ran 6 Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

Cynllun defnydd tir sy'n destun archwiliad annibynnol, a fydd yn llunio'r cynllun datblygu statudol ar gyfer ardal awdurdod cynllunio lleol er dibenion y Ddeddf.  Dylai gynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiad, dyraniadau tir ac, yn ôl yr angen, polisïau a chynigion angenrheidiol ar gyfer meysydd newid a diogelu allweddol.  Rhaid dangos polisïau a dyraniadau'n ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r cynllun.

**Cynllun Integredig Sengl**

Mae'n cyflawni dyletswyddau statudol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ("Cydamcanu – Cydymdrechu", LlC 2012), gan gynnwys Strategaethau Cymunedol. Caiff ei baratoi gan Fwrdd Gwasanaeth Lleol.  Gweler "Cynlluniau Llesiant Lleol" a fydd yn disodli Cynlluniau Integredig Sengl.

**Cynllun Llesiant Lleol**

Dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus wedi cael eu sefydlu ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.   Mae Conwy a Sir Ddinbych wedi sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd.  Cymeradwywyd y Cynllun Llesiant Lleol cyntaf (2018-2023) ym mis Ebrill 2018 ac mae Cynllun Llesiant Lleol 2023 - 2028 yn destun ymgynghoriad yn nhymor yr Hydref 2022.

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth**

Cynllun sy'n gosod amcanion a gweithredoedd ar gyfer gwarchod bioamrywiaeth, gyda thargedau mesuradwy, gyda'r nod o warchod a gwella natur ar draws cymunedau drwy ddwyn ynghyd yr holl fuddiannau, gan gynnwys sectorau fel amaethyddiaeth a busnes yn ogystal â'r cymunedau eu hunain. Caiff camau gweithredu eu llunio a'u datblygu mewn partneriaeth, ac wrth wneud hynny, maent yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol yn ogystal ag anghenion bioamrywiaeth.

**Cynnwys**

Term generig sy'n defnyddio technegau cyfranogi ac ymgynghori.

**Cytundeb Cyflawni (CC)**

Dogfen sy'n cynnwys amserlen y Cyngor ar gyfer paratoi ei Gynllun Datblygu Lleol ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynir i Lywodraeth Cymru i gytuno arni.

**Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG)**

Cytundeb gydag asiantaeth statudol sy'n gosod y safonau y bydd yn ceisio eu bodloni, a'r costau sy'n codi o hynny. Mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn cytuno ar un gyda'r ACLl mewn perthynas ag Archwiliad Cynllun Datblygu Lleol, gan osod yr amserlenni tebygol a chost yr archwiliad a darparu canllawiau clir i'r ACLl ar natur eu cyfrifoldebau eu hunain.

**Dangosydd**

Mesur o newidynnau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur cyflawniad amcanion.

**Deddf 2004**

Cynllun a baratowyd ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 60 Deddf 2004, sy'n nodi fframwaith strategol i arwain datblygiadau ac ymyriadau polisi'r dyfodol, p'un a yw'r rhain yn ymwneud â rheoli cynllunio defnydd tir ffurfiol ai peidio. Dan Adran 62(5)(b) Deddf 2004, rhaid i awdurdod cynllunio lleol ystyried Cynllun Gofodol Cymru wrth baratoi Cynllun Datblygu Lleol.

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Dogfennau cynigion cyn i'r cyhoedd archwilio'r cynllun**

Mae'r rhain yn cynnwys y weledigaeth, y dewisiadau strategol, y strategaeth a ffefrir, y polisïau allweddol, yr adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd, y gofrestr safleoedd ymgeisiol, a'r Adroddiad Adolygu (os yw'n briodol).

**Dogfennau'r Cynllun Datblygu Lleol (neu Ddogfennau i'w Harchwilio gan y Cyhoedd)**

Mae'r rhain yn cynnwys y Cynllun Datblygu Lleol i'w archwilio gan y cyhoedd, adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd, yr adroddiad ymgynghori cychwynnol, y gofrestr safleoedd ymgeisiol, yr Adroddiad Adolygu (os yw'n briodol) ac unrhyw ddogfennau ategol perthnasol.

**Dyraniadau penodol i safle**

Dyraniadau o safleoedd (cynigion) ar gyfer defnyddiau penodol neu gymysg neu ddatblygiad a gynhwysir mewn Cynllun Datblygu Lleol.  Bydd polisïau'n nodi unrhyw ofynion penodol ar gyfer cynigion unigol.  Bydd dyraniadau'n cael eu dangos ar fap cynigion y Cynllun Datblygu Lleol.

**Effaith arwyddocaol**

Effeithiau sy'n arwyddocaol yng nghyd-destun y cynllun (Mae Atodiad II Rheoliadau AAS yn nodi meini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd tebygol yr effeithiau ar yr amgylchedd).

**Fframwaith Arfarnu Cynaliadwyedd**

Mae hwn yn cynnwys amcanion dynodedig yr AoG yr asesir dewisiadau'r Cynllun Datblygu Lleol yn eu herbyn.

**Lliniaru**

Mesurau i osgoi, lleihau neu wrthbwyso effeithiau niweidiol sylweddol.

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Materion sy'n Cymell Newid**

Newidiadau ar ôl cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol, lle mae'r Arolygydd a bennwyd yn casglu bod angen newid er cadernid ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd i'r archwiliad.

**Meithrin consenswѕ**

Proses ddeialog gynnar gyda grwpiau budd wedi'u targedu i ddod i ddeall safbwyntiau perthnasol a chytuno ar gamau gweithredu

**Newid â Ffocws (NFf)**

Newidiadau a gynigiwyd i'r Cynllun Datblygu Lleol i'w Archwilio gan y Cyhoedd cyn ei gyflwyno, sy'n eithriadol o gyfyngedig o ran nifer, sy'n adlewyrchu tystiolaeth allweddol, ond ddim yn mynd at wraidd y cynllun.

**Partneriaid**

Adrannau awdurdodau lleol a chyrff statudol eraill lle bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn helpu cyflwyno rhai o amcanion eu strategaethau.  Efallai y bydd disgwyl i bartneriaid gyfrannu i lunio rhannau perthnasol o'r Cynllun Datblygu Lleol.

**Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC)**

Mae Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn un o asiantaethau gweithredol Llywodraeth Cymru. Ei brif waith yw prosesu apeliadau cynllunio a gorfodi ac archwilio cynlluniau datblygu lleol.

**Polisïau rheoli datblygu**

Cyfres o bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf a fydd yn sicrhau bod yr holl ddatblygiadau o fewn yr ardal yn bodloni'r nodau a'r amcanion a nodwyd yn y Strategaeth.

# Atodiad 6 – Rhestr Termau

**Safle Ymgeisiol**

Safleoedd Ymgeisiol yw rhai a enwebwyd gan unrhyw un i'w hystyried gan yr ACLl fel dyraniadau mewn Cynllun Datblygu Lleol sy'n cael ei ddatblygu.

**Sail Dystiolaeth**

Dehongliad o'r wybodaeth/data Sylfaen neu wybodaeth/data arall i ddarparu'r sail ar gyfer polisi'r cynllun.

**Sylfaenol**

Disgrifiad o gyflwr presennol ardal i fesur newid yn ei erbyn.

**Ymarfer Ymgynghori**

Un prosiect ymgynghori sy'n canolbwyntio ar amcan diffiniedig ac sydd fel arfer yn rhan o raglen ymgynghori gyffredinol.

**Ymgynghoriad**

Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc neu gyfres o bynciau penodol, neu ddogfen ddrafft.

**Ymgysylltu**

Proses sy'n annog trafodaeth â sylwedd mewn cymuned. Ymgais ragweithiol i gynnwys unrhyw grŵp penodol o bobl/rhan o'r gymuned.

**Prif Gynllunydd, Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1442317

Angela Loftus
Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai
Cyngor Sir Ddinbych
Caledfryn
Ffordd Smithfield
Dinbych
LL16 3RJ

14 Rhagfyr 2022

**CDLl Cyngor Sir Ddinbych: Cytundeb Cyflawni Cynllun Amnewid 1af**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd)**

Diolch am eich e-bost dyddiedig 12 Rhagfyr yn gofyn am gytuno ar Gytundeb Cyflawni newydd am gyfnod cynllun 2018-2033.

Mae paratoi CDLl yn ddyletswydd statudol a roddir ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru.  Mae cael cynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i'r system gynllunio yng Nghymru ac yn atgyfnerthu ymrwymiad y Llywodraeth i system sy'n cael ei harwain gan gynllun.

Mae'r cynllun yn arf corfforaethol ac yn fynegiant defnydd tir o flaenoriaethau ACLlau wrth ymdrin â materion cenedlaethol a lleol ac o'r herwydd, mae'r Cyfundeb Cyflawni yn ymrwymiad gan eich awdurdod i gyflawni'r blaenoriaethau allweddol hyn.  Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thîm ag adnoddau llawn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod modd paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a amlinellir ym mharagraff 2.1.4: Amserlen CDLlRh Cyngor Sir Ddinbych ac Atodiad 2 y Cytundeb Cyflawni ynghyd ag un cyfnod llithriant ychwanegol o 3 mis.  Mae'r amserlen hon yn cyd-fynd â gofynion yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Rhifyn 3) gan gydnabod bod gan eich awdurdod gynllun mabwysiedig eisoes ar waith a gefnogir gan nifer o ddogfennau sylfaen tystiolaeth.

Prawf o 'gadernid' y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn drwy'r archwiliad yw a yw'n cadw at y Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedol (CIS).  Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos cydymffurfiaeth gyffredinol â Dyfodol Cymru – Cynllun Cenedlaethol 2040.


Planning Directorate •Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ
Cyfarwyddiaeth Cynllunio• Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi

Ar ôl ystyried eich Cytundeb Cyflenwi, **gallaf gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a amlinellir ym mharagraff 2.1.4: Tabl Amserlen CDLlRh Cyngor Sir Ddinbych ac Atodiad 2 fel y darperir ar ei gyfer gan Adran 63(4) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'i diwygiwyd).

Dylai'r fersiwn a gyhoeddwyd o'ch Cyfundeb Cyflenwi nawr fod ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir



**Neil Hemington**
Prif Gynllunydd
Chief Planner

**CC:**

Lara Griffiths – Uwch-swyddog Cynllunio

Karsten Brußk – Uwch-swyddog Cynllunio